



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Asesiad Strwythuredig 2016 – **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 706A2016

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anne Beegan, Alison Butler, John Herniman, Gareth Lucey a Dave Thomas.

Cynnwys

Er bod gan y Bwrdd lechyd rai trefniadau effeithiol ar waith, mae'r trefniadau llywodraethu wedi dirywio dros y flwyddyn ddiwethaf. Canlyniad hyn yw gwendidau yn rhai o'r agweddau craffu, cynllun tair blynedd heb ei gymeradwyo, diffyg cynnydd wrth ymateb i argymhellion blaenorol a sefyllfa ariannol anghynaliadwy sy'n annhebygol o fod wedi'i mantoli erbyn diwedd 2016-17.

Adroddiad cryno

Y Cyd-destun	4
Y Prif Ganfyddiadau	5
Argymhellion	8

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i fonitro ac adrodd ar gyllidebau a chynlluniau arbed, ond nid yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy oherwydd graddfa'r pwysau ariannol a'r diffyg sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac mae'r Bwrdd yn annhebygol o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2016-17. 11

Mae'r Bwrdd wedi cyfleu ei ofynion sicrwydd ac yn effeithiol ar y cyfan. Serch hynny, mae problemau yn ystod y flwyddyn wedi achosi rhai risgiau o ran llywodraethu; mae angen atgyfnerthu'r trefniadau i graffu ar gyflawniad y cynllun; ac ni chafwyd cynnydd digonol wrth ymdrin â materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd.. 16

Atodiadau

Atodiad 1 - ymateb rheoli'r Bwrdd lechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016	33
--	----

Adroddiad cryno

Y Cyd-destun

- 1 Mae'r Asesiad Strwythuredig yn archwilio trefniadau o fewn Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mewn blynyddoedd cynt, asesai'r gwaith gadernid y trefniadau rheoli ariannol, digonolrwydd trefniadau lywodraethu, y rheolaeth ar ysgogiadau allweddol sy'n cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â materion gwella a nodwyd yn flaenorol. Canfu ein gwaith yn 2015 fod trefniadau sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu da, a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn parhau i esblygu, ond bod angen gwella hyn eto, yn enwedig yng nghyswllt rheoli risgiau i ystadau a sicrhau cydbwysedd ariannol.
- 2 Yn rhan o waith asesu strwythuredig 2016, cynhaliwyd unwaith eto adolygiad o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion y flwyddyn gynt. Eleni, rydym hefyd wedi cyflawni gwaith cymharol mewn tri maes. Defnyddiwyd ein dadansoddiad ein hunain o faterion Cymru gyfan a thrafodaeth ag ysgrifenyddion y Bwrdd yn sail ar gyfer y meysydd a ddetholwyd a chwmpas y meysydd hynny. Mae'r meysydd gwaith cymharol yn cynnwys:
 - fformat adroddiadau ariannol a gyflwynir i fyrddau;
 - y trefniadau ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTClau) a monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynlluniau hyn; a
 - dulliau o fapio risgiau a sicrwydd ac o ddatblygu fframwaith sicrwydd ar gyfer y bwrdd¹.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau ein harchwiliad lleol o'r Bwrdd Iechyd. Ar ôl cwblhau adroddiadau archwilio lleol, byddwn yn cwblhau dadansoddiadau Cymru gyfan o dri maes gwaith cymharol, i'w rhannu â sefydliadau'r GIG a fforymau Cymru gyfan, fel grwpiau cyfarwyddwyr cyllid, cyfarwyddwyr cynllunio ac ysgrifenyddion. Bwriedir i'r dull hwn gefnogi dysgu, drwy rannu dulliau ac arfer da ar draws sefydliadau'r GIG. Bydd gwaith cyhoeddi ein dadansoddiad cymharol o ddatblygiadau CTCl, a'r adroddiadau ar hynny wedi'i gydgyssylltu â chyhoeddiad adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddeddf Cyllid Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, a gynllunnir yn fuan yn 2017.
- 4 Mae ein canfyddiadau wedi'u seilio ar gyfweiliadau, arsylwadau pwyllgorau, adolygiadau o ddogfennau a data ar berfformiad, gwybodaeth a ddychwelwyd gan ysgrifenyddion bwrdd a chyfarwyddwyr cynllunio a chanlyniadau arolwg o aelodau bwrdd. Ymatebodd 119 o aelodau bwrdd ledled Cymru i'n harolwg, sef cyfradd ymateb o 59%. Roedd hyn

¹ Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn pennu'r ffactorau sy'n achosi risg wrth gyflawni amcanion corfforaethol, y rheolaethau mewnol er mwyn lliniaru'r risgiau hynny a'r sicrwydd sydd ei angen gan y bwrdd i wybod bod rheolaethau'n effeithiol a risgiau wedi'u rheoli.

yn cynnwys naw ymateb² (cyfradd ymateb o 45%) gan y Bwrdd Iechyd. Hoffem ddiolch i'r aelodau bwrdd hynny a ymatebodd i'n harolwg am eu hamser a'u mewnbwn.

5 Ym mis Medi 2016, newidiodd Llywodraeth Cymru statws y Bwrdd Iechyd o fonitro uwch i ymyrraeth dargededig, o dan ei Threfniadau Cyd-ymyrraeth a Dwysáu. Amlygai gohebiaeth Llywodraeth Cymru fod angen gwella materion penodol yn y meysydd a ganlyn:

- methiant i sicrhau CTCl cymeradwy, ac angen clir i drosi fframwaith strategol deng mlynedd y Bwrdd Iechyd yn gerrig milltir a chanlyniadau yn ei gynllun tair blynedd;
- pryderon ynghylch rhai materion yn Ysbyty Prifysgol Llandochoau nad oedd gan y Bwrdd olwg arnynt, a'r angen i roi sicrwydd na allai materion tebyg godi yn y dyfodol; a
- sicrwydd annigonol y bydd y llwybr perfformiad cadarnhaol a welwyd dros y 12 mis diwethaf o ran Amseroedd Atgyfeirio i Driniaeth (AiD) yn cael eu cynnal, ochr yn ochr â methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswydd statudol i gyflwyno cynllun cytbwys dros y cyfnod gofynnol o dair blynedd.

Y Prif Ganfyddiadau

6 Dyma ein casgliad cyffredinol yn sgil gwaith asesu strwythuredig 2016: er bod rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gadarn, mae agweddau eraill wedi dirywio dros y flwyddyn ddiwethaf. Canlyniad hyn fu gwendidau yn rhai o'r agweddau craffu, cynllun tair blynedd heb ei gymeradwyo, diffyg cynnydd wrth ymateb i argymhellion blaenorol a sefyllfa ariannol anghynaliadwy sy'n annhebygol o fod wedi'i mantoli ar ddiwedd 2016-17. Ceir crynodeb isod o'r rhesymau dros dro i'r casgliad hwn.

Cynllunio a rheolaeth ariannol

7 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, canfuom fod yn Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro ac adrodd ar gyllidebau a chynlluniau arbed. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy oherwydd graddfa'r pwysau ariannol a'r diffyg sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac mae'r Bwrdd yn annhebygol o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2016-17.

Perfformiad ariannol yn 2015-16

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniad adnoddau blynyddol ar gyfer 2015-16 ar ôl derbyn cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

² Cafwyd naw ymateb gan y Bwrdd Iechyd ar ffurf pum ymateb gan Aelodau Annibynnol a phedwar ymateb gan Swyddogion Gweithredol.

Cynllunio ariannol

- 9 Yng nghynllun 2016-17, roedd angen amryw o ailadroddiadau mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Serch hynny, roedd rhai cynlluniau i leihau costau heb eu cefnogi, ac nid yw'r cynlluniau ariannol tymor hwy yn dangos sefyllfa gynaliadwy.

Perfformiad ariannol yn 2016-17

- 10 Mae perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn y flwyddyn gyfredol yn sylweddol is na'r hyn a gynlluniwyd; nid yw cynlluniau i leihau costau wedi'u bodloni, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd na fydd yn llwyddo i sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2016-17. Gan ragweld diffyg o £30.9 miliwn ar gyfer 2016-17, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y ceir diffyg cronus o £52.3 miliwn ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn debygol o fethu â chyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Rheolaeth a stiwardiaeth ariannol

- 11 Mae fframwaith ar waith i sicrhau rheolaeth a stiwardiaeth ariannol briodol, ond ceir diffyg cydymffurfio mewn rhai meysydd, y mae angen i'r rheolwyr weithredu yn eu cylch. Yn ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16, ni nodwyd unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd, er bod rhai meysydd wedi'u nodi i'w gwella yn gysylltiedig â chroniadau sy'n bodoli ers tro, monitro a chymeradwyo contractau a'r trefniadau llywodraethu o ran amrywio contractau, dyfarnu contract meddyg ymgynghorol a thaliad i aelod o staff.

Adroddiadau ariannol

- 12 Mae'r wybodaeth a ddarperir drwy drefniadau adrodd ariannol yn ddigon cadarn i'r bwrdd wneud penderfyniadau, ac i gefnogi camau unioni os oes angen. Mae'r adroddiadau ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr, ond gan nad yw'r Bwrdd ond yn cyfarfod bob deufis bydd yr adroddiad cyllid misol diweddaraf sydd ar gael yn hen. Dylai'r penderfyniad diweddar i sefydlu Pwyllgor Cyllid penodol fod o gymorth i ymdrin â hyn, gan y bydd y Pwyllgor hwnnw'n cyfarfod yn amlach.

Llywodraethu a sicrwydd

- 13 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd y Bwrdd, canfuom fod y Bwrdd wedi cyfleu ei ofnion sicrwydd a'i fod yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae problemau yn ystod y flwyddyn wedi achosi rhai risgiau llywodraethu, mae angen atgyfnerthu'r trefniadau i graffu ar gyflawniad y cynllun, ac ni chafwyd cynnydd digonol er mwyn ymdrin â materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd.

Cynlluniau ac adroddiadau strategol

- 14 Nid yw trefniadau'r Bwrdd lechyd wedi llwyddo i greu cynllun cymeradwy, ac mae gwaith y Bwrdd i graffu ar gyflawniad yn erbyn y cynllun yn dameidiog, ac er bod rhaglen rheoli newid uchelgeisiol ar waith, cyfyngir ar gapasiti i weithredu'r newidiadau angenrheidiol, gan gynyddu'r risg o beidio â chyflawni'r newidiadau hynny.
- 15 Gan na cheir CTCl cymeradwy, bu'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd greu cynllun gweithredu blynyddol. Er bod model cynllunio strategol clir ar gael i ddatblygu'r cynllun, sy'n cefnog perchnogaeth leol, mae angen sicrhau bod canlyniadau tymor hwy y cynllun yn glir, ac ar raddfa ehangach mae angen cynnal adolygiad beirniadol o'r capasiti i gynllunio o fewn y Bwrdd lechyd. Ceir trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni'r cynllun ar lefel weithredol, ond mae'r trefniadau i graffu ar gynnydd ar lefel y Bwrdd a'r is-bwyllgorau yn wan. Cefnogir y cynllun gan raglen rheoli newid uchelgeisiol, ond ceir prinder capasiti mewnol i fwrw ymlaen â'r newidiadau hyn. Canlyniad hyn yw dibyniaeth ar gymorth allanol byrdymor, a risg na fydd newidiadau'n digwydd yn ddigon cyflym nac yn gynaliadwy.

Effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd

- 16 Mae fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn parhau i esblygu ac mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, cafwyd rhai risgiau sylweddol yn gysylltiedig â nifer o faterion a nodwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:
- fod y Bwrdd lechyd yn parhau i ddatblygu ei drefniadau sicrwydd, sydd yn dda ar y cyfan o'u cymharu â chyrrff eraill y GIG. Serch hynny, ceir cyfleoedd i ddiffinio ei amcanion mewn ffordd y gellir ei mesur yn rhwydd; a
 - bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod swyddi aelodau annibynnol wedi bod yn wag ers cyfnod hir a chapasiti'r tîm llywodraethu corfforaethol wedi achosi risgiau sylweddol, gan ddal newidiadau arfaethedig i atgyfnerthu'r strwythur pwyllgorau eto yn ôl, ac yn sgil nifer o faterion llywodraethu yn ystod y flwyddyn codwyd pryderon yn gysylltiedig â'r broses benderfynu.

Cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol

- 17 Bu'r Bwrdd lechyd yn araf wrth ymdrin â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd: prin oedd y cynnydd, os o gwbl, yn erbyn tri o'r pump argymhelliad. Bu'r cynnydd i ymdrin â nifer o gyfleoedd gwella yn fwy cadarnhaol, er bod y cynnydd hwnnw'n parhau i fod yn gymysg.
- 18 Yn fwy cyffredinol, mae angen gwella trefniadau'r Bwrdd lechyd i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion ein gwaith archwilio. Llunnir adroddiad olrhain i'r Pwyllgor Archwilio, ond nid yw'n cynnwys argymhellion archwilio ariannol, nid yw'n darparu digon o wybodaeth am gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio perfformiad, ac mae'n

ddibynnol ar allu pwyllgorau perthnasol i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro, sy'n amrywio.

Argymhellion

- 19 Manylir ar argymhellion a ddeilliai o waith asesu strwythuredig 2016 yn Arddangosyn 1. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd hefyd gadw ffocws ar weithredu unrhyw argymhellion blaenorol nad ydynt wedi'u cwblhau eto.
- 20 Bydd ymateb rheoli'r Bwrdd lechyd sy'n nodi sut mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1** ar ôl iddo gael ei gwblhau ac ar ôl iddo gael ei ystyried gan bwyllgor perthnasol y Bwrdd.

Arddangosyn 1: argymhellion 2016

Nodir argymhellion asesiad strwythuredig 2016 yn y tabl canlynol.

Argymhellion 2016	
Adroddiadau ariannol	
A1	Atgyfnerthu'r trefniadau adrodd ariannol drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr adroddiad ariannol i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Cyllid yn gysylltiedig â'r canlynol: <ol style="list-style-type: none">a) dangosfwrdd sy'n rhoi crynodeb o berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad ariannol allweddol; ab) materion yn gysylltiedig â chamau sy'n cael eu cymryd i reoli gorwariant yn erbyn y gyllideb a sicrhau arbedion angenrheidiol fesul maes clinigol, a manylion am hynny.
A2	Sicrhau bod cynlluniau i leihau costau wedi'u cefnogi'n ddigonol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
Datblygu cynlluniau	
A3	Wrth ddatblygu cynllun tair blynedd 2017-18, sicrhau: <ol style="list-style-type: none">a) cysylltedd clir rhwng y cynllun tymor canolig a'i strategaeth tymor hwy, yn ogystal â'i ofynion a'i gynlluniau strategol eraill, fel y Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ab) dealltwriaeth glir o'r budd a ddisgwyllir yn sgil y camau a'r blaenoriaethau a nodir yn ei gynllun.
Monitro a chraffu ar gynlluniau	
A4	Sefydlu'r Pwyllgor Cynllunio Strategol ar frys er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i graffu ar ddatblygiad cynllun tair blynedd 2017-18.
A5	Atgyfnerthu'r adroddiadau ar gynnydd wrth gyflawni yn erbyn y cynllun, gan gynnwys agweddau a nodwyd yn ein hadolygiad cymharol o adroddiadau cynnydd, a sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn rheolaidd gan y pwyllgor

Argymhellion 2016

Cynllunio Strategol yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-20.

Capasiti cynllunio

A6 Cynnal gwerthusiad o gapasiti cynllunio er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti a gallu cynllunio digonol o fewn y sefydliad. Dylai'r gwerthusiad hefyd gynnwys ei gapasiti rheoli newid er mwyn lleihau hyd yr eithaf yr angen i'r Bwrdd lechyd gomisiynu cefnogaeth allanol yn barhaus.

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

A7 Adolygu'r modd y caiff amcanion eu diffinio yn y Fframwaith Sicrwydd Risg Corfforaethol, er mwyn hyrwyddo'r gallu i adnabod llwyddiant, a'r hyn sydd angen ei wneud i gyflawni'r amcanion hyn, gan sicrhau y caiff y rhain eu halinio ymhellach â'r rhai a nodir yn y cynllun deng mlynedd.

Tryloywder adroddiadau i'r cyhoedd

A8 Sicrhau cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr lechyd Cymru (cyfeirnod WHC/2016/22) ar roi adroddiadau tryloyw i'r cyhoedd. Yn benodol, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod modd cyrraedd y rhain yn hawdd ar wefan y Bwrdd lechyd:

- cynllun i ymgysylltu â dinasyddion;
- polisi cwynion/codi pryderon; a
- pholisi amseroedd ymweld hyblyg.

Aelodaeth y Bwrdd

A9 Fel mater o frys, dylid sicrhau bod holl swyddi gwag aelodau annibynnol yn cael eu llenwi, a bod deiliaid yn eu swyddi i gefnogi gweithrediad pwyllgorau yn unol â rheolau cworwm.

Craffu ar berfformiad

A10 Fel mater o frys, sefydlu'r Pwyllgor 'Adnoddau a Chyflawni' newydd³ er mwyn sicrhau trefniadau cadarn i graffu ar berfformiad y Bwrdd lechyd.

A11 Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am berfformiad yn cael ei darparu i'r Pwyllgor 'Adnoddau a Chyflawni' newydd, gan gynnwys rhannu adolygiadau perfformiad y bwrdd clinigol, i'w alluogi i ganolbwyntio ar feysydd perfformiad y mae angen craffu arnynt yn fwyaf manwl.

Capasiti llywodraethu

A12 Cynnal gwerthusiad pellach o'r capasiti llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti a gallu llywodraethu digonol o fewn y sefydliad i roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd. Dylid gofyn am farn aelodau annibynnol ynghylch pa sicrwydd sydd ei angen yn rhan o'r gwerthusiad hwn.

Trefniadau olrhain

A13 Atgyfnerthu'r trefniadau olrhain ar gyfer argymhellion archwilio allanol drwy ddarparu gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch i ba raddau y mae

³ Nid yw union enw y pwyllgor newydd wedi'i gadarnhau eto.

Argymhellion 2016

argymhellion archwilio ariannol a pherfformiad, y naill a'r llall, wedi'u cwblhau, a sicrhau bod pwyllgorau perthnasol y Bwrdd yn monitro pob cynllun gweithredu hyd nes y bo wedi'i gwblhau.

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro ac adrodd ar gyllidebau a chynlluniau arbed, ond nid yw'r sefyllfa ariannol yn gynaliadwy oherwydd graddfa'r pwysau ariannol a'r diffyg sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac mae'r Bwrdd yn annhebygol o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2016-17.

- 21 O 1 Ebrill 2014, cyflwynwyd cyfundrefn gyllid fwy hyblyg ar gyfer y GIG yng Nghymru drwy Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol:
- Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd ariannol yn hytrach nag ym mhob blwyddyn unigol. Mae hyn yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, y gweithlu a chyllid, a gweithredu dros gyfnod hirach, haws ei reoli. Mae'n symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn sy'n annog penderfyniadau byrdymor o amgylch y flwyddyn ariannol. Y cyfnod cyntaf o dair blynedd o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 hyd 2016-7, felly ni fydd perfformiad y byrddau iechyd o dan y ddyletswydd hon yn cael ei fesur hyd 2016-17.
 - Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd baratoi CTCl tair blynedd treigl, a sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y cynllun hwnnw.
- 22 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, ystyriwyd y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull o gynllunio arian, rheolaethau a stiwardiaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer gwaith monitro ac adroddiadau ariannol. Nodir ein canfyddiadau isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni yn erbyn ei ddyraniad adnoddau blynyddol ar gyfer 2015-16 ar ôl derbyn cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

- 23 Yng nghynllun tair blynedd cymeradwy'r Bwrdd Iechyd o 2015-16 i 2017-18, nodwyd bwllch o £13.2 miliwn rhwng ei ddyraniad adnoddau blynyddol a'r gwariant net a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16. Drwy gydol y flwyddyn, rhoddodd y Bwrdd Iechyd sylw manwl i'r alldro a adroddwyd yn fisol, ac i ragolwg o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, ac ym mis Awst 2015, diweddarodd y Bwrdd Iechyd ei ragolwg diwedd blwyddyn gan nodi diffyg o £23.2 miliwn.
- 24 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd £14.7 miliwn mewn dyraniadau adnoddau ychwanegol ym mis Rhagfyr 2015 yn gysylltiedig â chymorth ariannol a chyllid perfformiad, £1.3 miliwn ym mis

Ionawr 2016 ar gyfer Addysg Feddygol a Deintyddol i Ôl-raddedigion a £10.5 miliwn ym mis Mawrth 2016 ar gyfer pwysau'r gaeaf. Defnyddiodd y Bwrdd lechyd y dyraniadau anghylchol hyn (£26.5 miliwn) i ariannu'r diffyg yn ystod y flwyddyn, gan adrodd tanwariant bychan o £0.07 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Bu'n rhaid cynnwys amryw o ailadroddiadau yng nghynllun 2016-17, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Er hyn, roedd rhai cynlluniau i leihau costau heb eu cefnogi, ac nid yw cynlluniau tymor hwy yn arddangos sefyllfa gynaliadwy.

- 25 Bu'r broses cynllunio ariannol ar gyfer 2016-17 yn faith, gan fod elfennau o'r cynllun wedi'u cadarnhau mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru:
- Ym mis Ionawr 2016, cytunodd y Bwrdd i gyflwyno cynllun tair blynedd a oedd yn rhagweld diffyg o £23.9 miliwn. Ar y pryd, cymeradwyodd y Bwrdd hefyd y CTCI tair blynedd ar gyfer 2016-17 i 2018-19 ar ffurf drafft, ond nid oedd y cynllun hwnnw'n cynnwys rhyw lawer o fanylion ariannol. Nid oedd rhai o'r cynlluniau yn gadarn eto, nac yn cynnwys costau, ond roedd angen gwneud gwaith pellach er mwyn canfod beth fyddai'n fforddiadwy. Cyflwynwyd y fersiwn hon o'r CTCI tair blynedd drafft i Lywodraeth Cymru ar 29 Ionawr 2016.
 - Ym mis Mawrth 2016, nododd y Bwrdd y cynnydd tuag at ddatblygu drafft terfynol o'r CTCI tair blynedd, a'r dull o wneud hynny, gan gynnwys Cynllun Ariannol 2016-17, a oedd wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r diffyg o £33.9 miliwn a oedd wedi'i ragweld. Nodwyd mai pwysau ychwanegol oedd wrth wraidd y cynnydd yn y diffyg a ragwelwyd.
 - Yn dilyn adborth a chyfarfodydd pellach â swyddogion Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd fersiwn derfynol o'r CTCI tair blynedd i Lywodraeth Cymru ar 8 Gorffennaf 2016. Cymeradwywyd y cynllun hwn gan y Bwrdd yn ddiweddarach, ar 28 Gorffennaf 2016. Nid oedd y cynllun yn creu cydbwysedd ariannol o fewn y Bwrdd dros y cyfnod o dair blynedd, er bod y diffyg a ragwelwyd wedi gostwng o £33.9 miliwn i £9.4 miliwn. Cofnodwyd bod y gostyngiad hwn yn deillio o'r canlynol:
 - Canfod gwerth £10 miliwn o gyfleoedd ariannol.
 - Cyflwyno gostyngiad o £14.6 miliwn i'r gyllideb a neilltuwyd i wella perfformiad. Roedd y Bwrdd lechyd yn bwriadu defnyddio adnoddau presennol i sicrhau'r gwelliant hwn mewn perfformiad, ond nid oedd y cynllun yn rhoi esboniad clir o'r dull o gyflawni hyn.
 - Ar 27 Gorffennaf 2016, nododd Llywodraeth Cymru nad oedd mewn sefyllfa i gymeradwyo CTCI y Bwrdd lechyd. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar sawl ffactor, gan gynnwys:
 - pryderon nad oedd cynlluniau a rhaglenni gwasanaeth digonol ar waith i sicrhau cydbwysedd ariannol dros dair blynedd;
 - nad oedd cyllideb y CTCI tair blynedd wedi'i mantoli;

- nad oedd digon o fanylion yn y CTCI ynghylch y camau a'r cerrig milltir allweddol fyddai'n trosi gweledigaeth deng mlynedd y Bwrdd lechyd yn gynllun tymor canolig; ac
- roedd yr wybodaeth am flynyddoedd dau a thri yn brin.
- Cyflwynodd y Bwrdd lechyd gynllun gweithredol blwyddyn o hyd ar gyfer 2016-17 i Lywodraeth Cymru ar 9 Medi 2016, a nododd y Bwrdd statws y cynllun hwn yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2016. Roedd y cynllun hwn yn rhagweld diffyg o £22 miliwn ar gyfer 2016-17. Mae a wnelo'r cynnydd o £12.6 miliwn ynn y diffyg a ragwelwyd â'r gost o wella perfformiad (£14.6 miliwn wedi'i osod yn erbyn cyllid disgwylidig o £10.5 miliwn i wella amseroedd aros Atgyfeirio i Driniaeth), gostyngiad mewn cyllid disgwylidig yn gysylltiedig â gwerthu asedau (£6.7 miliwn) a phwysau eraill ar gostau (£1.8 miliwn).

Mae perfformiad ariannol y Bwrdd lechyd yn y flwyddyn gyfredol ar ei hôl hi yn sylweddol; nid yw cynlluniau i leihau costau wedi'u bodloni, ac mae'r Bwrdd lechyd yn adrodd na fydd yn llwyddo i sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2016-17

- 26 Er mwyn i'r Bwrdd lechyd gyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli ei gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd, bydd angen i'r Bwrdd lechyd adrodd bod ei gyllideb yn gytbwys yn 2016-17, sy'n cynnwys adennill y gorwariant o £21.4 miliwn a gafwyd yn 2014-15. Mae'r CTCI a gymeradwywyd ar gyfer 2015-16 i 2017-18 a'r CTCI drafft ar gyfer 2016-17 yn cynnwys rhagdybiaeth na fydd hi'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd ad-dalu'r diffyg a achoswyd yn 2014-15. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r rhagdybiaeth hon.
- 27 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Ar ddiwedd mis Hydref 2016, diweddarodd y Bwrdd lechyd y diffyg yr oedd yn ei ragweld o £22 miliwn i £35.5 miliwn, yn sgil pwysau cyllidebol o £7.3 miliwn, ac yn sgil tangyflawniad o £6.2 miliwn mewn cynlluniau gostwng costau. Roedd y diffyg a ragwelwyd ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn yn seiliedig ar y gyllideb yn hytrach nag ar berfformiad gwirioneddol, ar sail y rhagdybiaeth na fyddai'n costio rhyw lawer i wella perfformiad, ac y byddai arbedion sylweddol yn cael eu nodi yn rhan olaf y flwyddyn yn sgil prosiect trawsnewid. Fodd bynnag, cynhaliwyd ailasesiad o'r risgiau'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun, ac adroddwyd rhagolygon mwy realistig o'r diffyg o fis Hydref 2016.
- 28 Ar ddiwedd mis Tachwedd 2016, gostyngodd y Bwrdd lechyd y diffyg yr oedd wedi'i ragweld i £30.9 miliwn. Adroddodd y Bwrdd lechyd ei fod wedi gweithredu cynlluniau i leihau'r cyfraddau gwariant ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol gan gynnal perfformiad ar yr un pryd. O ganlyniad i hyn, gostyngodd y pwysau a ragwelwyd i'r gyllideb i £5 miliwn, a lleihawyd y diffyg a ragwelwyd yn y gostyngiadau cost i £4 miliwn.
- 29 Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi cael rhyw lawer o lwyddiant wrth gyflawni cynlluniau lleihau costau yn y gorffennol, fel y nodir yn [Arddangosyn 2](#). Bu'r cynlluniau lleihau costau yn uchelgeisiol, gyda Byrddau Clinigol yn ei chael hi'n anodd canfod a chyflawni'r holl ostyngiadau a gynlluniwyd.

Arddangosyn 2: targedau lleihau costau rhwng 2013-14 a 2016-17

	Targed lleihau costau (£m)	Cynlluniau lleihau costau a nodwyd ar ddechrau'r flwyddyn (£m)	Gostyngiadau cost a gyflawnwyd (£m)
2014-14	56.7	43.3	45.6
2014-15	47.9	41.2	27.8
	(diwygiwyd i 43.2)		
2015-16	28.8	19.3	21.2
2016-17	26.0	9.9	

- 30 Mae cynlluniau'r Bwrdd lechyd yn cynnwys targed lleihau costau o £26 miliwn ar gyfer 2016-17. Ar ddiwedd mis Tachwedd 2016, adroddodd y Bwrdd lechyd ei fod wedi sicrhau gostyngiadau cost gwerth £12 miliwn ar yr adeg honno o'r flwyddyn o gymharu â tharged o £14 miliwn. Ar ben hynny, adroddodd nad oedd y cynlluniau gweithredu lleihau costau a oedd ar waith, neu a oedd yn cael eu datblygu ganddo ond yn bodloni £22 miliwn o'r targed o £26 miliwn.
- 31 O ran y dyfodol, mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Gan ragweld diffyg o £30.9 miliwn ar gyfer 2016-17, mae'r Bwrdd lechyd yn rhagweld y bydd diffyg o £52 miliwn wedi cronni ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017, ac y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb dros raglen dreigl dair blynedd.

Mae fframwaith ar waith i sicrhau rheolaeth a stiwardiaeth ariannol briodol, ond ceir diffyg cydymffurfio mewn rhai meysydd y mae angen i'r rheolwyr weithredu yn eu cylch.

- 32 Mae gan y Bwrdd lechyd fframwaith clir o rolau a chyfrifoldebau, ac mae gweithgareddau rheoli a phrosesau priodol ar waith. Yn sail i'r fframwaith, ceir archebion sefydlog, cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, cynllun dirprwyo a fframwaith ymreolaeth a enillir.
- 33 Cadarnhaodd ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16 na chanfuwyd unrhyw wendidau o bwys ymhlith rheolaethau mewnol y Bwrdd lechyd yn ystod ein harchwiliad. Fodd bynnag, drwy ein profion canfuwyd gwerth £1.7 miliwn o archebion prynu a oedd wedi cronni, ac a oedd heb eu talu ers dros flwyddyn. Mae'r Bwrdd lechyd bellach wedi ehangu ei waith i gysoni datganiadau cyflenwyr, a rhagwelir y bydd y balans hwn wedi gostwng yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn.
- 34 Codwyd rhai pryderon gennym hefyd ynghylch:
- Y trefniadau llywodraethu yng nghyswllt amrywio contractau, dyfarnu contract ymgynghori a thaliad i aelod o staff (gweler paragraff 82).
 - Y gweithdrefnau ar gyfer monitro a chymeradwyo contractau. Wrth brofi samplau, canfuwyd un contract â chyllideb amcangyfrifedig o lai na £1 miliwn a oedd wedi'i nodi'n

briodol gan y Gweinidog. Fodd bynnag, roedd costau gwirioneddol y contract hwn yn uwch na £1 miliwn, ac nid oedd y contract wedi'i ymestyn yn ffurfiol, na chymeradwyaeth wedi'i sicrhau gan y Gweinidog.

- 35 Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau o systemau ariannol. Yn 2015-16, rhoddodd y Bwrdd Mewnol 'sicrwydd rhesymol' bod trefniadau i ddiogelu llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a adolygir, wedi'u cynllunio mewn modd addas a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Yn yr archwiliad o'u systemau ariannol, nodwyd trefniadau rheolaeth digonol.
- 36 Mae gan y Pwyllgor Archwilio ran weithredol yn y fframwaith rheoli ariannol. Goleuir hyn drwy raglen waith gytunedig sy'n trafod Archwilio Mewnol, atal twyll, adroddiadau polisi a chydymffurfio, llywodraethu a materion eraill wrth iddynt godi.

Mae'r wybodaeth a ddarperir drwy drefniadau adrodd ariannol yn ddigon cadarn i'r bwrdd wneud penderfyniadau, ac i gefnogi camau unioni os oes angen

- 37 Ceir trefniadau boddhaol ar gyfer adroddiadau ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno adroddiadau monitro misol i Lywodraeth Cymru, ac adroddiadau ariannol mewnol a ystyrir gan y Bwrdd. Mae'r adran gyllid yn cwblhau ei phroses adrodd diwedd mis o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i'r mis ddod i ben, ac mae adroddiadau canlyniadau monitro Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno erbyn diwrnod naw ym mhob mis. Mae Byrddau Clinigol yn cymryd rhan yn y broses adrodd a monitro ariannol, gan gyflwyno adroddiadau ar berfformiad i lefelau uwch.
- 38 Ochr yn ochr â'n gwaith asesu strwythuredig, rydym wedi cynnal dadansoddiad cymharol o gynnwys adroddiadau ariannol yng nghyffwrdd y GIG yng Nghymru. Mae adroddiadau cyllid y Bwrdd Iechyd i'r Bwrdd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr, ac yn cynnwys rhai meysydd lle ceir arfer da, ond gallai rhai agweddau ar yr adroddiad fod yn well. Ceir disgrifiad o'r rhain yn [Arddangosyn 3](#):

Arddangosyn 3: crynodeb o'r canfyddiadau ar ôl cymharu adroddiadau cyllid

Mae'r tabl yn disgrifio canfyddiadau adolygiad cymharol o'r adroddiad cyllid a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar gyfer mis dau.

Beth sy'n dda?	Beth allai fod yn well?
<ul style="list-style-type: none"> Ceir crynodeb o'r sefyllfa o ran reffeniw yng nghyd-destun y diffyg sylfaenol. 	<ul style="list-style-type: none"> Er bod y dangosfwrdd cyffredinol yn yr Adroddiad ar Berfformiad yn cynnwys dangosyddion perfformiad ariannol allweddol, nid oes unrhyw ddangosfwrdd nac adroddiadau eithrio yn yr adroddiadau cyllid.
<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio graffiau/tablau i ddadansoddi amrywiant mewn cyflog 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r gorwariant ar y gyllideb fesul maes clinigol wedi'i bennu, ond nid oes unrhyw ddadansoddiad o'r problemau na manylion am y camau sy'n cael eu

Beth sy'n dda?	Beth allai fod yn well?
<p>ac i bennu'r risgiau'n gysylltiedig â'r arbedion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys atodiad yn nodi buddsoddiadau mewn cynlluniau i wella gwasanaethau a'r galw, ac ar gyfer lliniaru risg. • Ceir crynodeb byr o'r risgiau a'r pryderon allweddol. 	<p>cymryd, dim ond cyfeiriad at lefelau'r arbedion sydd eu hangen a'r ganran gyffredinol a gyflawnwyd hyd yma.</p>

- 39 Bydd y Bwrdd yn ystyried adroddiadau cyllid drwy gydol y flwyddyn. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bod yn eilfis sy'n golygu bod yr adroddiad cyllid misol diweddaraf sydd ar gael weithiau wedi dyddio. Er enghraifft, cyflwynwyd adroddiad cyllid mis dau y Bwrdd lechyd gerbron y Bwrdd ar 28 Gorffennaf 2016, 58 diwrnod ar ôl i'r cyfnod adrodd ariannol ddod i ben. Dylai'r penderfyniad diweddar i sefydlu Pwyllgor Cyllid penodol fod o gymorth i ymdrin â hyn, gan y bydd y Pwyllgor hwnnw'n cyfarfod yn amlach.
- 40 Mae adroddiadau cyllid y Bwrdd lechyd yn cynnwys gwybodaeth am wariant a ysgwyddwyd hyd yma ynghyd â rhagolygon o'r diffyg. Fel y crybwyllwyd uchod, bu'r gwariant ym mhob mis yn 2016-17 yn gyson uwch na'r gyllideb, a newidiwyd y diffyg a ragwelwyd wrth gadarnhau eitemau cyllido untro.

Mae'r Bwrdd wedi cyfleu ei ofynion sicrwydd ac yn effeithiol ar y cyfan. Serch hynny, mae problemau yn ystod y flwyddyn wedi achosi rhai risgiau o ran llywodraethu; mae angen atgyfnerthu'r trefniadau i graffu ar gyflawniad y cynllun; ac ni chafwyd cynnydd digonol wrth ymdrin â materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd.

- 41 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, archwiliwyd trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer datblygu CTCI (a'i gynllun gweithredol blwyddyn o hyd dilynol), adrodd ar gyflawniad y cynllun, a'r dull o ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Rydym hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â materion gwella ac argymhellion mewn asesiadau strwythuredig blaenorol. Nodir ein canfyddiadau isod.

Nid yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i greu cynllun cymeradwy, ac mae gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau i graffu ar gyflawniad yn erbyn y cynllun yn dameidiog, ac er bod rhaglen rheoli newid uchelgeisiol ar waith, cyfyngir ar gapasiti i weithredu'r newidiadau angenrheidiol

42 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn tarddu o'n hadolygiad o ddull y Bwrdd Iechyd o gynllunio⁴, monitro ac adrodd ar gyflawniad y cynllun gweithredu mewn modd strategol. Rydym hefyd wedi ystyried y trefniadau sy'n cefnogi cyflawniad rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r CTCl a'r cynllun gweithredol, a'r cynnydd a wnaed wrth ymateb i argymhellion blaenorol a oedd yn gysylltiedig â chynllunio strategol. Nodir ein prif ganfyddiadau isod.

Er bod y Bwrdd wedi cyflwyno CTCl o fewn y terfyn amser gofynnol, mae'n amlwg bod angen atgyfnerthu trefniadau'r Bwrdd i graffu ar y CTClau drafft nesaf gan na lwyddwyd i sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar ei gyfer.

- 43 Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun manwl sy'n nodi'r amserlen ar gyfer datblygu ei CTCl, gan ddechrau drwy lunio drafft o'i fwriadau comisiynu ar gyfer y flwyddyn ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd y rhain i'w cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi, yn dilyn trafodaeth gynnar â'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad (PCPh) ar ddrafft y bwriadau comisiynu a gweithdy penodol ar hynny gyda'r holl fyrddau clinigol a'r swyddogaethau corfforaethol er mwyn pennu'r disgwyliadau a'r amcanion o ran cyflawni (y fframwaith).
- 44 Roedd disgwyl i fyrddau clinigol wedyn ddatblygu eu cynlluniau lefel uchel drwy ddefnyddio'r fframwaith, ynghyd ag achosion busnes ar gyfer cyllid a ystyriwyd gan y Tîm Rheoli Gweithredol. Gwnaed hyn cyn sesiwn datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr, lle cyflwynwyd drafft y fframwaith ariannol a themâu'r CTCl a'u hystyried i'w cymeradwyo.
- 45 Yna cafodd cynlluniau manwl y byrddau clinigol eu cyflwyno ar ffurf drafft i'w cymeradwyo gan y Tîm Rheoli Gweithredol ym mis Ionawr, cyn cael eu cyfuno i greu drafft o CTCl cyfun i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Ionawr. Cyflwynwyd CTCl terfynol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 31 Mawrth.
- 46 Fodd bynnag, ni chymeradwyodd Llywodraeth Cymru y CTCl a gyflwynwyd ym mis Mawrth, a hynny'n bennaf gan fod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno diffyg o £33 miliwn yn 2016-17, a chyflwynwyd CTCl diwygiedig i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf, a gymeradwywyd yn ddiweddarach gan y Bwrdd yn hwyr ym mis Gorffennaf. Ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau na fyddai'n gallu cymeradwyo'r CTCl diwygiedig, cafodd cynllun gweithredol blwyddyn o hyd ei ddatblygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Medi. Oherwydd y terfynau amser, nododd y Bwrdd y cynllun gweithredol blynyddol ar ôl i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

⁴ Ni aethpwyd ati i ail-wneud gwaith craffu Llywodraeth Cymru ar y CTCl wrth gyflawni'r gwaith archwilio, ond ystyriwyd y camau a gymerwyd gan gyrrff y GIG mewn ymateb i unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun neu amodau cymeradwyo'r cynllun.

- 47 Er bod lefel ymgysylltiad y Bwrdd yn y broses o ddatblygu'r CTCl yn gymharol gadarnhaol, nodwyd yn ein harolwg diweddar o'r Bwrdd fod chwech o'r naw o ymatebwyr yn teimlo bod y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol wedi neilltuo digon o amser i graffu'n effeithiol ar y cynllun. Yr oedd dau ymatebwr yn anghytuno â hynny, ac ymatebwr arall heb gytuno nac anghytuno. Yn ogystal â hyn, teimlai pedwar o'r naw ymatebwr fod y Bwrdd yn ymwneud mwy â materion byrdymor na strategaeth a chynlluniau tymor canolig a thymor hir. Bydd y cynnig i ddatblygu is-bwyllgor Cynllunio Strategol pwrpasol o dan y Bwrdd yn rhan o adolygiad diweddar o'r strwythur pwyllgorau cyfredol yn golygu bod modd rhoi mwy o amser a sylw i ddatblygu'r CTCl yn y dyfodol.

Ceir model cynllunio strategol clir ar gyfer datblygu'r cynllun sy'n cefnogi perchnogaeth leol, ond mae angen sicrhau bod canlyniadau tymor hwy y cynllun yn glir, ac ar raddfa ehangach mae angen cynnal adolygiad beirniadol o'r capasiti i gynllunio o fewn y Bwrdd Iechyd

- 48 Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn ailwampio ei ganllawiau lleol ar gyfer datblygu ei CTCl yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfleu'n glir bod y CTCl yn fusnes i bawb, ac wedi'i berchnogi a'i ddatblygu gan y gwasanaeth. Er bod gan y Gyfarwyddwr Cynllunio gyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros sicrhau bod y CTCl yn cael ei ddatblygu, rhennir y cyfrifoldeb dros gynnwys y cynllun ar draws y Tîm Rheoli Gweithredol. Drwy strwythur y Byrddau Clinigol a'r Swyddogaeth Gorfforaethol, disgwylir i'r arweinydd gweithredol perthnasol ddal y gwasanaeth yn atebol er mwyn iddo gyflawni'r hyn a nodir yn y cynllun.
- 49 Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio yn cadeirio grŵp o ddirprwy gyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr cynorthwyol i reoli'r broses gynllunio, a elwir yn Grŵp Datblygu a Chyflawni Strategaeth. Mae'r grŵp hwn yn sefydlu'r templedi y mae angen i'r gwasanaeth eu cwblhau, ac yn diwygio'r canllawiau yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd yn sgil proses gynllunio'r flwyddyn flaenorol. Mae'r grŵp hwn hefyd yn galluogi ystyriaeth o bob agwedd ar y cynlluniau yn nhermau'r gweithlu, ansawdd, cynllunio, cyllid ac ystadau i sicrhau bod y cynllun cyffredinol yn gydlynol. Defnyddir nifer o gynlluniau manwl sydd islaw'r CTCl, fel y cynllun TGCh, i gyflenwi'r CTCl.. Cyfrifoldebau'r swyddogaethau corfforaethol yw datblygu a chyflawni'r cynlluniau hynny.
- 50 Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r CTCl, bydd y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'i brif rhanddeiliaid, ac mae'n un o bum corff o fewn y GIG a chanddo gynllun ymgysylltu. Mae bwriadau comisiynu yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, ac hefyd wedi'u cynnwys mewn trafodaethau rheolaidd â staff drwy'r Fforwm Partneriaeth i ryw raddau. Mae gweithdai mewnol hefyd wedi cael eu cynnal â chlinigwyr a thrafodaethau wedi'u cynnal â staff drwy Fyrddau Clinigol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod graddau ymwneud y staff ynn amrywio yn ôl maes Bwrdd Clinigol. Sicrheir ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid lle bydd cynrychiolwyr o sefydliadau partner sydd yn hanfodol er mwyn cyflawni'r CTCl yn bresennol.
- 51 Y Bwrdd Iechyd yw'r unig gorff o fewn y GIG yng Nghymru a chanddo strategaeth deng mlynedd o hyd sy'n disgrifio ei weledigaeth ar gyfer y tymor hwy. Fodd bynnag, un o'r rhesymau dros beidio â chymeradwyo'r CTCl oedd y diffyg eglurder ynghylch sut y byddai'r CTCl yn cynorthwyo i gyflawni'r cynllun tymor hwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn a hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y CTCl ar gyfer 2017-18 yn dangos yn

gliriach sut y bydd hefyd yn helpu i gyflawni yn erbyn cynlluniau a gofynion strategol eraill, fel y Ddeddf Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant.

- 52 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod bod angen iddo gyfleu manteision y CTCI yn gliriach. Mae safbwyntiau aelodau'r Bwrdd yn cefnogi hyn ar y cyfan, a dim ond chwech o'r naw o ymatebwyr a gytunai fod y Bwrdd Iechyd wedi cyfrif y manteision a ddisgwyllir yn sgil y cynllun. Bydd y templed ar gyfer datblygu CTCI 2017-18 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl wasanaethau nodi'r holl ganlyniadau a'r manteision a fwriedir yn sgil y cynlluniau y maent yn eu cyflwyno ar gyfer eu meysydd.
- 53 Mae'r capasiti cynllunio yn parhau i fod yn broblem o fewn y Bwrdd Iechyd, lle na cheir ond dau aelod o staff o fewn y swyddogaeth cynllunio corfforaethol. Y Bwrdd Iechyd yw'r unig gorff o fewn y GIG yng Nghymru nad yw wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol er mwyn canfod a oes ganddo gapasiti a gallu cynllunio digonol. Fodd bynnag, wrth feincnodi data gwasanaethau corfforaethol, gwelwyd bod capasiti cynllunio'r bwrdd Iechyd yn brin, a chan hynny y mae wedi creu swydd cynllunio ychwanegol. Mae'r swydd hon yn creu cyswllt cryfach rhwng cynllunio a gweithrediadau, gyda'r swydd newydd yn adrodd wrth y Prif Swyddog Gweithredu ond yn gweithio'n agos â'r tîm cynllunio. Mae'r trefniant hwn yn cydnabod bod angen capasiti cynllunio o fewn Byrddau Clinigol, ac mai galluogi datblygiad y cynlluniau yw unig rôl y tîm cynllunio canolog. Er bod creu'r capasiti ychwanegol hwn yn gam cadarnhaol ar ran y Bwrdd Iechyd, byddai'n fuddiol iddo gynnal gwerthusiad o'i gapasiti a'i allu cynllunio, yn unol â chyrrff eraill y GIG ledled Cymru.

Ceir trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni'r cynllun ar lefel weithredol, ond mae'r trefniadau i graffu ar gynnydd ar lefel y Bwrdd a'r is-bwyllgorau yn dameidiog.

- 54 Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o ddulliau ar gyfer monitro ac adrodd ar ei gynnydd wrth gyflawni yn erbyn ei gynllun, ond cynhelir y mwyafrif o'r rhain drwy'r strwythur gweithredol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Cyfarfodydd y Tîm Rheoli Gweithredol - lle bydd y tîm gweithredol llawn yn trafod materion perfformiad allweddol yn gysylltiedig â chyflawni'r CTCI.
 - Bwrdd Rheoli'r System Iechyd (BRhSI) - lle trafodir adroddiad perfformiad manwl ar feysydd cyflawni allweddol y CTCI yn fisol. Mae BRhSI yn cynnwys yr holl swyddogion gweithredol, yn ogystal ag uwch dimau arwain o'r Byrddau Clinigol.
 - Bwrdd Rhaglen BIG (Nodau Gwella Uchelgeisiol) - lle caiff cyflawniad rhaglen drawsnewid BIG ei oruchwylio gan y tîm gweithredol llawn, ynghyd â'r Is-gadeirydd. Rhaglen allweddol i reoli newid yw BIG, a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun, ac a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
 - Adolygiadau Bwrdd Clinigol y CTCI - lle ystyrir cynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol o ran ailddylunio a datblygu gwasanaethau yn rhan o adolygiadau perfformiad chwarterol Byrddau Clinigol. Mae'r rhain yn cynnwys tîm gweithredol mawr, ynghyd ag uwch dîm arwain pob Bwrdd Clinigol.
 - Cyfarfodydd Bwrdd Clinigol - lle bydd uwch dîm arwain y Bwrdd Clinigol, ynghyd â chynrychiolwyr o'i gyfarwyddiaethau, adrannau neu glystyrau perthynol, yn trafod cynnydd yn erbyn cyflawniad y CTCI bob mis. Mae gan bob Bwrdd Clinigol swyddog

gweithredol enwebedig sy'n gweithredu fel aelod annibynnol ar y Bwrdd Clinigol, ac a ddylai fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd Clinigol.

- Cyfarfodydd ar gynlluniau penodol - lle bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn goruchwyllo cynnydd wrth gyflawni cynlluniau ar gyflyrau unigol neu'n ymwneud â gwasanaethau penodol, sy'n hollbwysig er mwyn cyflawni'r CTCl, er enghraifft y cynlluniau gwella canser a strôc.
- Cydgyfarfodydd Chwarterol y Tîm Gweithredol â Llywodraeth Cymru - lle trafodir cynnydd wrth gyflawni'r cynllun gweithredol â swyddogion GIG Cymru yn rhan o drafodaethau 'ymyrraeth wedi'i thargedu'.

55 Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o dri chorff y GIG yng Nghymru nad yw'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'w is-bwyllgorau priodol am gynnydd yn ystod y flwyddyn yn erbyn y cynllun. Yn hytrach, y mae'n dibynnu ar drefniant canol blwyddyn lle bydd y Bwrdd yn craffu ar y cynnydd diweddaraf yn erbyn y CTCl cyfan, neu'r cynllun gweithredol. Nid yw hyn yn ddigon mynych. Yn rhan o'n gwaith cymharol, rydym wedi adolygu adroddiad cynnydd y CTCl a ddarperir i'r Bwrdd. Er bod rhai agweddau cadarnhaol ar gynnwys yr adroddiad, dengys **Arddangosyn 4** fod lle hefyd i atgyfnerthu'r gwaith adrodd mewn sawl maes.

Arddangosyn 4: canfyddiadau cryno o gymharu adroddiadau cynnydd ar y CTCl i'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn disgrifio canfyddiadau adolygiad cymharol o adroddiad cynnydd ar y CTCl a gyflwynwyd i'r Bwrdd

Beth sy'n dda?	Beth allai fod yn well?
<ul style="list-style-type: none"> • Ceir cerdyn sgorio neu ddangosfwrdd sy'n darparu gwybodaeth hygyrch a hawdd ei darllen yn erbyn camau lefel uwch yn y cynllun. • Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd gwirioneddol ochr yn ochr â'r cynnydd a gynlluniwyd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ceir crynodeb bras ond nid yw hwn ond yn manylu ar feysydd lle cafwyd cynnydd. Nid yw'n trafod y prif faterion sy'n atal cynnydd mewn meysydd eraill.
<ul style="list-style-type: none"> • Nodir problemau sydd i'w datrys yn gysylltiedig â phrosiectau, ynghyd â'r risgiau a'r camau lliniaru cysylltiedig a gynlluniwyd. • Defnyddir nifer o ddeunyddiau gweledol defnyddiol i ddangos cynnydd, gan gynnwys gwybodaeth am dueddiadau, ac mae cymysgedd o wybodaeth ansoddol a meintiol wedi'i chynnwys. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni ddefnyddir unrhyw gerrig milltir i ddangos cynnydd yn erbyn camau allweddol, ac ni ddangosir i ba raddau y mae'r camau wedi'u cwblhau. • Ni ddefnyddir dull Coch / Ambr / Gwyrdd i helpu i adrodd ar gynnydd yn erbyn holl gamau'r CTCl. • Ni ddefnyddir unrhyw ragolygon i ragweld beth fydd y sefyllfa yn y dyfodol.

56 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ar yr holl dargedau cyflawni cenedlaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd. Pwrpas y rhain yw dangos y cynnydd a gafwyd yn erbyn y CTCl. Mae'n rhoi darlun cynhwysfawr o sefyllfa rhai o gyflawniadau allweddol y CTCl. Fodd bynnag, ar ei ffurf bresennol, mae'n anodd i aelodau'r bwrdd gysylltu'r mesurau

perfformiad â'r camau a'r blaenoriaethau a nodir yn y CTCI, ac nid yw ond yn darparu un dimensiwn i'r cynllun. Mae materion tebyg hefyd yn berthnasol i'r adroddiadau manwl ar ansawdd, y gweithlu a chyllid. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn datblygu cerdyn sgorio cytbwys i wella'r modd y mae'n monitro cynnydd yn erbyn cyflawniad ei gynllun, ond nid yw hwn wedi'i gwblhau eto.

57 Cyhoeddwyd Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-20 ym mis Hydref 2016. Mae'n cynnwys rhai gofynion newydd, gan gynnwys yr angen i lunio strategaeth hirdymor a gofynion monitro ac adrodd penodol ar gyfer y CTCI, yn enwedig y canlynol:

- Bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn i bob sefydliad am ddiweddariadau chwarterol ar gyflawni'r CTCI.
- Bydd yn rhaid i gyrff y GIG gael trefniadau ar waith i fonitro ansawdd a chyflawniad misol yn erbyn y cynllun. Fel isafswm, dylid cael:
 - grŵp gweithredol i oruchwylio cyflawniad y cynllun; ac
 - is-bwyllgor neu grŵp o dan y Bwrdd i herio a chraffu ar gynnydd a pherfformiad yn rheolaidd.
- dylai'r Bwrdd dderbyn asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y cynllun mewn sesiwn gyhoeddus, a hynny ddwywaith y flwyddyn o leiaf.

58 Yn ein gwaith asesu strwythuredig yn 2015, nodwyd bod angen mwy o graffu ar y cynnydd yn erbyn y cynllun, a bod gan y pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad ran i'w chwarae er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd yn rheolaidd. Ym mis Awst, derbyniodd y Pwyllgor PCPh adroddiad diwedd blwyddyn ar gyflawniad CTCI 2015-16, sef y tro cyntaf i'r pwyllgor hwnnw dderbyn unrhyw sicrwydd yn gysylltiedig â'r CTCI. Er bod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen, ymddengys fod yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno fel canllaw wrth drafod datblygu bwriadau comisiynu CTCI 2017-18, gan na adroddwyd unrhyw wybodaeth am gyflawniad cynllun y flwyddyn gyfredol. Er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fodloni gofynion newydd Fframwaith Cynllunio'r GIG, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio Strategol, ar ôl iddo gael ei sefydlu, fod â rhan weithredol yn y gwaith o graffu'n rheolaidd ar gynnydd wrth gyflawni. Ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn argymhellion 2015 yn [Arddangosyn 5](#)

Arddangosyn 5: cynnydd yn erbyn argymhellion cynllunio strategol 2015

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2015 sydd yn gysylltiedig â chynllunio strategol.

argymhelliad 2015	Disgrifiad o'r cynnydd
A1 Mireinio'r Pwyllgor PCPh ymhellach er mwyn cryfhau ei allu i roi lefelau priodol o sicrwydd i'r Bwrdd. Dylai hyn gynnwys: a) Craffu'n fwy rheolaidd ar gyflawniad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y cynllun tair blynedd.	Prin yw'r cynnydd, os o gwbl.. Ac eithrio'r adroddiadau diwedd blwyddyn ar gyflawniad CTCI 2015-16, nid yw'r Pwyllgor PCPh wedi craffu o gwbl ar gynllun cyfredol y Bwrdd Iechyd.

Cefnogir y cynllun gan raglen rheoli newid uchelgeisiol, ond ceir prinder capasiti mewnol i fwrw ymlaen â'r newidiadau hyn. Canlyniad hyn yw dibyniaeth ar gymorth allanol byrdymor, a risg na fydd newidiadau'n digwydd yn ddigon cyflym nac yn gynaliadwy.

- 59 Er mwyn cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r camau a'r blaenoriaethau a nodir yn ei gynllun, yn ogystal â'i weledigaeth tymor hwy, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu ystod o raglenni newid strategol. Mae rhai o'r rhaglenni hyn yn bodoli ers sawl blwyddyn bellach, ac yn cynnwys:
- Y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd - sy'n anelu i ysgogi camau i effeithlonni gwasanaethau a lleihau costau ar draws y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio ar feysydd fel cynhyrchiant y gweithlu a mesurau effeithlonrwydd ar draws y llwybr i gleifion allanol. Mae'r rhaglen hon yn rhan o gylch gwaith y swyddfa Rheoli Rhaglenni ganolog, sy'n adrodd wrth y Cyfarwyddwr Cynllunio, ac a gefnogir gan y Tîm Gwella Parhaus, sy'n adrodd wrth y Prif Swyddog Gweithredu, ynghyd â staff a dynnir o'r gwasanaeth.
 - Academi Caerdydd a'r Fro - sy'n anelu i ysgogi gwelliannau hyfforddiant a datblygu er mwyn creu ymagwedd gydlynol a chydgyssylltiedig at ddatblygu trefniadol. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen i Arwain Gwelliannau i Ddiogelwch Cleifion (LIPS), lle gwelwyd carfan fawr o staff yn derbyn hyfforddiant LIPS i roi'r sgiliau iddynt a'u hannog i ysgogi newidiadau yn eu gwasanaethau, yn hytrach na disgwyl i eraill gyflwyno'r newidiadau drostynt. Yn yr arolwg diweddar o staff y GIG, nododd 50% o staff y Bwrdd Iechyd eu bod yn gallu gweithredu gwelliannau yn eu maes, a oedd yn uwch na'r 45% a gafwyd mewn arolwg blaenorol.
- 60 Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu dwy raglen drawsnewid ac iddynt ffocws mwy strategol – HEART a BIG:
- Drwy weithio mewn partneriaeth â'i awdurdodau lleol a Phrifysgol Caerdydd, mae'r Gynghair Menter Iechyd ar gyfer Trawsnewid Rhanbarthol (HEART) wedi cael ei sefydlu i drawsnewid ffyrdd o weithio drwy adeiladu ar gryfderau ac adnoddau'r holl bartïon gyda'i

gilydd. Y Cyfarwyddwr Cynllunio yw arweinydd rhaglen HEART, a'i ddiben yw sefydlu'r holl drefniadau strwythurol i ysgogi'r newidiadau.

- Yn dilyn ffocws blaenorol y Prif Weithredwr ar bum blaenoriaeth allweddol o ran perfformiad, a gyflawnir drwy'r fenter 'Ystafell Fawr' wythnosol, mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi datblygu tair blaenoriaeth BIG (Nodau Gwella Uchelgeisiol) sy'n canolbwyntio ar wella llif cleifion drwy welyau meddygol i gleifion mewnol, datblygu'r 'ardal leol berffaith' o fewn y gymuned, a gweithio mewn modd mwy integredig drwy ddefnyddio dau arbenigedd braenaru i leihau niwed ac achosion o amrywio, sef: cyhyrsgerbydol a offthalmoleg. Mae'r Prif Weithredwr yn goruchwyllo cyflawniad rhaglen drawsnewid BIG, gyda Bwrdd Rhaglen BIG, sy'n cynnwys tîm gweithredol llawn ynghyd â'r Is-Gadeirydd fel prif ysgogydd newid.

- 61 Mae pob un o'r rhaglenni hyn yn uchelgeisiol o ran yr hyn y maent yn anelu i'w gyflawni. Serch hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo bob tro yn y gorffennol i gyflwyno newidiadau i wasanaethau sy'n esgor ar welliannau cynaliadwy. Nododd pedwar o'r naw o ymatebwyr i'n harolwg o'r Bwrdd nad oedd hynny ond yn digwydd weithiau. Yn ogystal â hyn, dim ond 29% o'r staff yn yr arolwg diweddar i'r staff a nododd fod newid wedi'i reoli'n dda o fewn y Bwrdd Iechyd. Cyflwynir sicrwydd ynghylch cyflawniad y rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i'r Pwyllgor PCPh bob yn eilfis. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf mae llawer o waith ar ôl i'w wneud mewn meysydd sydd wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd dros y pedair blynedd diwethaf, er bod rhai arbedion a gwelliannau effeithlonni wedi'u cyflawni.
- 62 Nid yw rhaglen LIPS, sydd wedi cyflwyno gwelliannau gwirioneddol i'r modd y darperir rhai gwasanaethau, wedi'i hymwreiddio'n llwyr o fewn y Bwrdd Iechyd. Er bod arolwg staff Cymru gyfan yn dangos cynnydd yn nifer y staff o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n teimlo eu bod yn gallu cyflwyno gwelliannau i'w maes, mae hyn yn dal yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan.
- 63 Mae pob un o'r rhaglenni newid yn dibynnu'n drwm ar gyfranogiad y staff. Cydnabyddir bod angen ennyn diddordeb y staff yn y newidiadau sydd eu hangen, a bod angen i'r staff fod yn llwyr berchen ar y newidiadau hynny, ond gall hyn fod yn her oherwydd maint y pwysau gweithredol. Mae gan y Bwrdd Iechyd gapasiti canolog penodol er mwyn cefnogi'r broses o weithredu newidiadau, ond mae'r capasiti hwn hefyd yn brin, gydag ond dau aelod o staff yn cefnogi'r rhaglen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a dau aelod o staff yn cefnogi rhaglen BIG. Nid oes unrhyw gapasiti canolog ar hyn o bryd i gefnogi rhaglen HEART.
- 64 Yn y gorffennol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dibynnu ar gapasiti allanol i gefnogi rhai o'i newidiadau, gan gomisiynu Newton Consultancy er enghraifft er mwyn helpu i ysgogi rhai o'r newidiadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mewn theatrau llawdriniaeth, a GE Capital yn fwy diweddar i gefnogi gwelliannau effeithlonrwydd. Er bod croeso i'r capasiti ychwanegol pan fo'r staff dan bwysau gweithredol, ceir mwy o risg o arwahanrwydd rhwng y staff a'r newidiadau. Mae hyn yn golygu na fydd eu gwasanaeth yn cael ei gynnal bob tro pan fydd y capasiti allanol yn cael ei ddileu. Yn ein gwaith asesu strwythuredig yn 2015, nodwyd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â dibyniaeth ar gefnogaeth allanol a'r angen i ysgogi newidiadau yn fewnol hyd y gellir. Fodd bynnag, yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, cynigiodd y Prif Weithredwr y byddai angen capasiti allanol i gefnogi trydedd ffrwd waith rhaglen BIG i ganolbwyntio ar y ddwy raglen fraenaru, ac fe gymeradwyodd y Bwrdd y dylid cychwyn ymarfer tendro. Roedd angen

cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer hyn, fodd bynnag, ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn y gymeradwyaeth honno hyd yma.

Mae fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn parhau i esblygu, ac mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae nifer o broblemau a nodwyd yn ystod y flwyddyn wedi achosi risgiau sylweddol i'r trefniadau ar gyfer llywodraethu cadarn.

65 Mae'r canfyddiadau wrth wraidd y casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull y Bwrdd Iechyd o fapio sicrwydd a datblygu ei fframwaith sicrwydd ar gyfer y Bwrdd, effeithiolrwydd y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r adolygiad o gynnydd wrth ymdrin â materion gwella a nodwyd yn flaenorol yn gysylltiedig â'r strwythur pwyllgorau, y drefniadaeth a'r swyddogaeth llywodraethu. Nodir ein prif ganfyddiadau isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei drefniadau sicrwydd, sydd yn dda ar y cyfan o'u cymharu â chyrrff eraill y GIG. Serch hynny, ceir cyfleoedd i ddiffinio ei amcanion mewn ffordd y gellir ei mesur yn rhwydd

66 Mae gan bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd strwythurau a phrosesau llywodraethu ar waith er mwyn ceisio a rhoi sicrwydd ynghylch y gwasanaethau a ddarperir, mae'r risgiau'n cael eu rheoli ac mae'r sefydliad yn gweithredu'n unol â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill. Mae cyrrff y GIG yn sefydliadau cymhleth ac yn gweithredu mewn amgylchedd deinamig. Mae'n bwysig felly bod byrddau parhau i adolygu eu trefniadau llywodraethu a sicrwydd, ac yn eu bodloni eu hunain fod y sicrwydd y maent yn dibynnu arno yn gymesur, wedi'i dargedu'n briodol, ac yn trafod ehangder portffolio risgiau cyffredinol y sefydliad.

67 Mae mapio sicrwydd⁵ yn ddyfais a ddefnyddir yn gynyddol i nodi a mapio, mewn modd systematig, y sicrwydd sydd ei angen ar gyfer risgiau allweddol a allai atal y sefydliad rhag cyflawni ei amcanion Gall y broses fapio helpu sefydliadau i amlygu unrhyw fylchau mewn sicrwydd, neu unrhyw achos diangen o ddyblygu prosesau sicrwydd. Mae mapio fel hyn o gymorth i ddylunio fframwaith sicrwydd effeithiol, sy'n alinio risgiau a sicrwydd â'r systemau rheoli a'r trefniadau craffu priodol.

68 Rydym wedi archwilio dull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu ac adolygu ei fframwaith sicrwydd y Bwrdd, ac sut mae hyn yn cymharu â'r dulliau a fabwysiadwyd gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill yng Nghymru.

69 Mae fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd wedi'i hen sefydlu. Cafodd ei ddatblygu yn 2013 a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2014. Fe'i gelwir yn lleol yn Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol. (FfRSC) Mae'r fframwaith yn datblygu'n barhaus, ac wedi cael ei ddiwygio sawl gwaith ers iddo gael ei sefydlu. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau bob hyn a hyn wrth i'r sefydliad aeddfedu; cynhaliwyd sesiwn datblygu'r bwrdd yn benodol ar gyfer y FfRSC yn 2017, ac mae gweithdy pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2017. Yn ein harolwg diweddar o aelodau'r bwrdd,

⁵ HM Treasury, [Assurance Frameworks](#), Rhagfyr 2012

cytunai wyth o'r naw ymatebydd fod yr aelodau'n cymryd rhan yn natblygiad y FfRSC, ac yn y gwaith o'i adolygu'n barhaus, er bod un ymatebydd yn anghytuno â hynny.

- 70 Mae'r Bwrdd lechyd wedi datgan ei ddeg amcan corfforaethol yn glir, ac mae'r rhain yn adlewyrchu'r amcanion strategol a nodwyd ganddo yn ei gynllun deng mlynedd ynghyd â'r amcanion mewn cynlluniau tymor byr i dymor canolig. Fodd bynnag, mae amcanion corfforaethol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y modd y mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu gweithredu, sy'n golygu ei bod hi weithiau'n anodd gweld cydberthynas glir rhyngddynt a'r amcanion a nodwyd yn y cynllun deng mlynedd. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion yn gysylltiedig â'i drefniadau llywodraethu, yn ogystal â'i werthoedd a'i ymddygiad, ac wedi'u hysgogi'n bennaf gan y risgiau corfforaethol sydd yn codi drwy'r sefydliad.
- 71 Mae'r amcanion a nodir yn y FfRSC yn rhai lefel uchel, sy'n golygu y gall fod yn anodd rhoi diffiniad clir o lwyddiant, o'r hyn sydd angen ei wneud i gyflawni'r amcan, ac ar gyfer pa agweddau y mae angen sicrwydd. Er bod wyth o'r naw a ymatebodd i'r arolwg o aelodau'r bwrdd yn cytuno bod y Bwrdd lechyd wedi rhoi disgrifiad clir o lwyddiant yn erbyn yr amcanion, ceir lle i'r Bwrdd lechyd adolygu ei ddull o gyfleu ei amcanion, ac alinio'r rhai a nodir yn y FfRSC ymhellach â'i amcanion strategol yn ei gynllun deng mlynedd. Mae cyrff y GIG sy'n ymddangos yn fwy llwyddiannus wrth ddatblygu a defnyddio fframwaith sicrwydd bwrdd wedi cyfleu eu hamcanion fel eu bod yn cynnwys digon o fanylion yn eu hawl eu hunain, ac/neu wedi rhannu'r amcanion hynny'n is-amcanion ac is-nodau. Defnyddir y manylder ychwanegol hwn yn sail ar gyfer pennu'r sicrwydd sydd ei angen.
- 72 Mae amcanion corfforaethol y Bwrdd lechyd wedi'u gosod ar lefel uchel. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol yn disgrifio risgiau, ac mae sydd o gymorth wrth bennu pa sicrwydd sydd ei angen i liniaru rhwystrau i gyflawni amcanion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd gael ei sicrhau nad y risgiau corfforaethol yn unig, a uwchgyfeirir drwy ei fframwaith rheoli risg, yw'r risgiau a nodir, ond cyfres gynhwysfawr o risgiau sy'n amharu ar ei allu i gyflawni ei amcanion. Dyrennir yr holl risgiau fodd bynnag i bwyllgor arweiniol o'r Bwrdd, a nodir uwch swyddog cyfrifol ar eu cyfer. Mae'r FfRSC hefyd yn cydnabod bylchau ym mecanweithiau'r Bwrdd lechyd.
- 73 Gan mai cofrestr risgiau corfforaethol a fframwaith sicrwydd cyfun yw'r FfRSC, mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n berchen arno, ac fe'i hystyrir yn ffurfiol ym mhob cyfarfod. Mae cynlluniau gwaith y pwyllgorau wedi'u halinio â'r FfRSC, er bod y Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen addasu ymhellach i sicrhau bod y pwyllgorau'n ystyried yr holl elfennau o sicrwydd a ddyrennir iddynt. Arweiniodd hyn at adolygu'r strwythur is-bwyllgorau ym mis Ebrill 2016. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i oruchwyllo'r FfRSC yn llawn, ac fe godir materion yn gysylltiedig â sicrwydd drwy gyfarfodydd cadeiryddion yr is-bwyllgorau a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (y Grŵp Cydgysylltu Llywodraethu) a gynhelir yn rheolaidd.
- 74 Yn fras, nodwyd yn ein gwaith cymharol fod fframwaith sicrwydd y Bwrdd lechyd yn dda mewn sawl maes, gan gynnwys priodoleddau mapio sicrwydd y bwrdd, o'i gymharu â chyrrff eraill y GIG. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adolygiad archwilio mewnlol diweddar, a roddai 'sicrwydd sylweddol' ar fframwaith sicrwydd a rheoli risg y Bwrdd lechyd. Bydd adroddiad ar wahân sy'n cynnwys canlyniadau gwaith cymharol Cymru gyfan ar fframweithiau sicrwydd byrddau yn cael ei gyhoeddi er trafodaeth yn nhymor y gwanwyn 2017.

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod swyddi wedi bod yn wag ers cyfnod hir a chapasiti'r tîm llywodraethu corfforaethol wedi achosi risgiau sylweddol, gan ddal newidiadau arfaethedig i atgyfnerthu'r strwythur pwyllgorau eto yn ôl, ac yn sgil nifer o faterion llywodraethu yn ystod y flwyddyn codwyd pryderon yn gysylltiedig â'r broses benderfynu

- 75 O arsylwi yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau, rydym wedi gweld lefel resymol o graffu a herio, ynghyd â gweinyddiaeth ac ymddygiad effeithiol, ac wedi gweld bod prosesau ar waith i gynnal adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys eitem sefydlog i adolygu'r cyfarfod ar ddiwedd yr holl gyfarfodydd pwyllgor a holl gyfarfodydd y Bwrdd. Yn ystod 2016, llwyddodd y Bwrdd hefyd i fodloni ei ofynion adrodd blynyddol drwy gyhoeddi ei adroddiad blynyddol, ei ddatganiad llywodraethu blynyddol, ei ddatganiad ansawdd blynyddol a'i gyfrifon o fewn y terfyn amser gofynnol.
- 76 Mae llyfrau bwrdd electronig bellach wedi'u hymwreiddio yn yr holl gyfarfodydd, ac ymddengys eu bod yn ddull effeithiol o driongli gwybodaeth rhwng pwyllgorau ar Bwrdd. Mae'r eitemau ar yr agenda yn berthnasol i bob pwyllgor, ac fe geir cyfeiriadau clir mewn papurau pwyllgor at y sicrwydd a roddir, a dywedodd wyth o blith y naw a ymatebodd i arolwg aelodau'r bwrdd eu bod yn deall yn glir beth oedd ystod y camau y gallai pwyllgorau eu cymryd i reoli neu uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd. Dangosai'r arsylwadau hefyd allu da i ryngweithredu rhwng y pwyllgorau, a rhwng y pwyllgorau a'r Bwrdd.
- 77 Mae'r Bwrdd a'i holl bwyllgorau hefyd yn parhau i gynnal eu busnes mewn modd agored a thryloyw, gan ddarparu'r holl bapurau ar ei wefan, a chan sicrhau mai ond eitemau perthnasol ar yr agenda a drafodir mewn sesiynau preifat. Mae'r ffaith bod yr holl rai a ymatebodd i'n harolwg aelodau bwrdd yn cytuno bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud ymdrech unedig i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ddidwyll a gonest. Yn rhan o'n gwaith cynhaliom adolygiad o wefan y Bwrdd lechyd i asesu a oedd yn cydymffurfio â Chylchlythyr lechyd Cymru⁶ ynghylch cyhoeddi a hygyrchedd gwybodaeth ragnodedig ar wefannau. Canfu ein hadolygiad fod o'r 15 ardal gofynnol, ni allem ddod o hyd dystiolaeth ar gyfer pedwar, sef:
- cynllun blynyddol o fusnes y bwrdd (er bod hwn ar gael ar dudalen cyfarfodydd y Bwrdd, nid oedd modd cael hyd iddo drwy chwiliadur y wefan);
 - cynllun i ymgysylltu â dinasyddion;
 - polisi cwynion/codi pryderon; a
 - pholisi amseroedd ymweld hyblyg.
- 78 Mae gan y Bwrdd raglen o sesiynau datblygu'r Bwrdd a gynhelir bob yn eilfis. Mae'r sesiynau hyn wedi trafod amrywiaeth o destunau, gan gynnwys y CTCl a'r FfRSC, yn ogystal â thestunau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. Cytunai wyth o'r naw a ymatebodd i arolwg aelodau'r bwrdd fod rhaglen datblygu'r bwrdd yn cefnogi sgiliau aelodau'r bwrdd ac yn eu helpu i deimlo'n hyderus wrth ymdrin â sicrwydd a chraffu ar gyflawniad yn erbyn amcanion mewn modd effeithiol.

⁶ WHC/2016/033 - Cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau Bwrdd lechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth y GIG. Pwrpas Cylchlythyr lechyd Cymru yw ei gwneud hi'n ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth ar wefannau cyrff y GIG sy'n wynebu'r cyhoedd, a sicrhau ei bod hi'n hawdd cyrchu gwybodaeth gyhoeddedig.

- 79 Ers mis Ebrill 2016, fodd bynnag, mae tair o swyddi aelodau annibynnol y Bwrdd wedi bod yn wag, ac er bod ymarfer recriwtio wedi'i gynnal ym mis Medi ac argymhellion wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Gweinidog, mae'r swyddi hyn yn dal heb eu llenwi. Ar adegau, mae hyn wedi achosi risg sylweddol i aelodaeth y pwyllgorau, gyda nifer o'r pwyllgorau mewn perygl o fod heb gworwm os bydd un o'r aelodau annibynnol presennol yn methu bod yn bresennol ar y funud olaf. Bydd tri aelod annibynnol arall yn gadael ym mis Medi 2017. Mae pob un o'r tri wedi gwasanaethu am ddau dymor ac yn meddu ar brofiad sylweddol. Mae'r broses o recriwtio i'r swyddi ychwanegol hyn ar fin cychwyn, ond o ystyried yr amser a gymerwyd i lenwi'r swyddi blaenorol ar gyfer aelodau annibynnol, ceir risg y bydd llawer o'r pwyllgorau yn parhau i gael eu cynnal ar yr aelodaeth gworwm yn unig am beth amser, heb y profiad gwerthfawr a allai fod wedi cael ei gynnig gan yr aelodau annibynnol sy'n ymadael.
- 80 Ym mis Ebrill 2016, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o'i strwythurau pwyllgor yn sgil ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol. Yn yr adolygiad, nodwyd yn arbennig nad oedd y pwyllgor PCPh yn gweithredu mor effeithiol ag y gallai. Penderfynwyd rhannu'r pwyllgor PCPh yn ddau bwyllgor newydd: Pwyllgor Cynllunio Strategol newydd a Phwyllgor newydd i ystyried cyflawniad ac adnoddau. Yn sgil newid yr aelodau annibynnol, a'r diffyg capasiti o fewn y tîm llywodraethu i sefydlu'r ddau bwyllgor hyn, cytunwyd na fyddai'r pwyllgorau yn cael eu sefydlu nes bo'r aelodau annibynnol newydd wedi dechrau eu swydd. Oherwydd oedi wrth sefydlu'r aelodau newydd, mae'r trefniadau newydd hyn yn dal heb eu sefydlu.
- 81 Yn ogystal â'r angen i graffu mwy ar gyflawniad cynlluniau, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, un o'r gwendidau a nodwyd yn gysylltiedig â'r Pwyllgor PCPh oedd ei allu i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd ynghylch perfformiad y Bwrdd Iechyd, gan nad oedd mewn gwirionedd yn adolygu ei berfformiad. Argymhellwn y dylid ystyried rhannu crynodebau'r adolygiadau chwarterol o berfformiad Byrddau Clinigol a'r pwyllgor PCPh fel bo modd iddo gael sicrwydd o'r fframwaith rheoli perfformiad yn sail ar gyfer yr adroddiad ar berfformiad a gyflwynir gerbron y Bwrdd. Byddai hyn hefyd yn ei alluogi i anadlu'n ddwfn a phlymio'n ddwfn i ardaloedd sy'n codi pryder, a gofyn am sicrwydd pellach gan y gwasanaethau cysylltiedig. Hyd yma, nid yw'r wybodaeth hon wedi cael ei rhannu â'r pwyllgor PCPh.
- 82 Mae llawer o bolisiâu'r Bwrdd Iechyd bellach yn cael eu diweddarau, yn dilyn camau brys i adolygu ôl-groniad o bolisiâu yr oedd angen eu hadolygu, ac mewn archwiliad mewnol diweddar nodwyd bod trefniadau rheoli polisi y Bwrdd Iechyd yn rhoi 'sicrwydd rhesymol'. Mae cynllun dirprwyo clir ac ymreolaeth a enillir hefyd ar waith, ond yn ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16 codwyr mater llywodraethu yn gysylltiedig â dyfarnu contract nad oedd yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Codwyd materion llywodraethu eraill hefyd y gysylltiedig ag amrywio contract a thalu aelod o staff, lle nodwyd nad oedd digon o wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno i sylw'r Bwrdd ac/neu ei bwyllgorau. Er ein bod wedi nodi bod ansawdd y papurau a gyflwynir mewn cyfarfodydd yn parhau i gael ei fireinio, gan gynnwys cyfeiriadau clir mewn papurau at y camau gweithredu y mae angen i'r Bwrdd neu'r pwyllgor eu cymryd, a chyfeiriad at yr adran yn y FfRSC y mae'r papur yn rhoi sicrwydd yn ei chylch, mae angen mwy o ymglymiad gan y tîm llywodraethu er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried a'i darparu.
- 83 Mae gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'i uwch dîm ran glir yn y gwaith o herio swyddogion gweithredol a gweithredu fel seinfwrdd ar faterion nad ydynt eto wedi'u cyflwyno gerbron y Bwrdd a'i bwyllgorau. Yn ein gwaith asesu strwythuredig dros y blynyddoedd

diwethaf, codwyd pryderon ynghylch capasiti'r tîm llywodraethu. Yn rhan olaf 2015, aeth y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol ar secondiad, ac wedyn cafodd swydd barhaol gydag Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2016. Gadawodd hyn fwllch o fewn y tîm llywodraethu, ac mae'r swyddi gwag hynny'n dal heb eu llenwi'n iawn, gan adael y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol heb unrhyw aelodau uwch o staff o fewn y tîm. Bellach, mae'r materion llywodraethu diweddar a godwyd drwy ddatganiadau ariannol 2015-16, hefyd yn codi pryderon ynghylch gallu swyddogaeth llywodraethu'r Bwrdd Iechyd i gefnogi trefniadau llywodraethu'r Bwrdd mewn modd cadarn. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ganddo gapasiti a gallu digonol o fewn y sefydliad yn ei gyfarwydd i gynnig yr holl sicrwydd sydd ei angen gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

- 84 Yn 2015, gwnaethom yr argymhellion a ganlyn ynghylch effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: cynnydd argymhellion 2015 i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ynghylch eu heffeithiolrwydd

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2015.

argymhellion 2015	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>A1 Mireinio'r Pwyllgor PCPh ymhellach er mwyn cryfhau ei allu i roi lefelau priodol o sicrwydd i'r Bwrdd. Dylai hyn gynnwys:</p> <p>a) Derbyn crynodebau o'r trafodaethau yn dilyn Adolygiadau Perfformiad Gweithredol Byrddau Clinigol.</p>	<p>Prin yw'r cynnydd, os o gwbl..</p> <ul style="list-style-type: none"> Er gwaethaf y penderfyniad i ddirwyn y pwyllgor PCPh i ben ym mis Ebrill 2016 a chreu pwyllgor newydd i ganolbwyntio'n benodol ar adnoddau a chyflawni, a fyddai'n galluogi mwy o ffocws ar berfformiad, mae'r pwyllgor newydd hwn yn dal heb ei sefydlu. Mae'r holl Fyrddau Clinigol yn derbyn adolygiad o berfformiad gweithredol bob chwarter, ond nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i rhannu â'r pwyllgor PCPh, gan nad oedd y pwyllgor newydd wedi'i sefydlu.
<p>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei gapasiti llywodraethu, er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r tîm llywodraethu i roi mwy o gefnogaeth i Fyrddau Clinigol yn gysylltiedig â rheoli risg, er mwyn sicrhau y caiff yr holl gynlluniau gweithredu allanol eu monitro'n briodol, ac y rhoddir sicrwydd ysgrifenedig i'r Bwrdd ar faterion allweddol sy'n codi o'r pwyllgorau.</p>	<p>Wedi'i gwblhau ond problem yn dal heb ei datrys</p> <ul style="list-style-type: none"> Er bod adolygiad o gapasiti llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wedi'i gynnal ar ddechrau 2016, mae angen i'r Bwrdd werthuso ei gapasiti llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau bod ganddo gapasiti a gallu llywodraethu digonol o fewn y sefydliad i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd. Dylid gofyn am farn aelodau annibynnol ynghylch pa sicrwydd sydd ei angen yn rhan o'r gwerthusiad hwn.

Bu'r Bwrdd lechyd yn araf wrth ymdrin â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd, ac mae angen gwella ei drefniadau ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion o waith archwilio arall a gyflawnwyd gennym.

85 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, adolygwyd cynnydd y Bwrdd lechyd wrth ymdrin â'r pum argymhelliad a wnaed yn 2015. Disgrifiwyd argymhellion yn gysylltiedig â chynllunio strategol ac effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn. Ar y cyfan, ychydig o gynnydd y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i wneud wrth ymdrin â'r holl argymhellion blaenorol, ar wahân i'r argymhelliad yn gysylltiedig ag ystadau, lle mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau gwneud cynnydd. Disgrifir y cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion eraill nas trafodir yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn yn [Arddangosyn 7](#).

Arddangosyn 7: cynnydd yn erbyn holl argymhellion eraill 2015

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn holl argymhellion eraill 2015 nas trafodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn.

argymhellion 2015	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>A3 Mae angen gwella presenoldeb y Swyddog Gweithredol enwebedig mewn cyfarfodydd Bwrdd Clinigol, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni swyddogaeth graffu a herio briodol ar lefel Bwrdd Clinigol yn rhinwedd ei swydd fel 'aelod annibynnol'.</p>	<p>Prin yw'r cynnydd, os o gwbl..</p> <ul style="list-style-type: none"> Wrth adolygu sampl ⁷ o gofnodion o gyfarfodydd Bwrdd Clinigol yn ystod 2016, nodwyd nad oedd y Swyddog Gweithredol enwebedig ond yn bresennol yn neg o'r 20 o gyfarfodydd a gafodd eu hadolygu. Roedd y Swyddog Gweithredol enwebedig yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd a samplwyd o blith cyfarfodydd y Bwrdd Diagnosteg a Therapiwteg Clinigol, a'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu cynnal adolygiad o rôl y Swyddog Gweithredol o fewn y Bwrdd Clinigol, sydd yn debygol o ddisodli'r problem hon.
<p>A4 Mae cyflwr ystâd y Bwrdd lechyd yn wynebu risg sylweddol. Bellach, mae angen i'r Bwrdd lechyd bellach gyflymu ei gamau er mwyn sicrhau bod ei ystâd yn addas i'r diben a'i fod, yn benodol, yn cydymffurfio â gofynion statudol.</p>	<p>Ar y trywydd iawn ond heb ei gwblhau eto</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynyddu ei ffocws ar ystadau, ac fe gyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgor PCPh ar gydymffurfiaeth â gofynion statudol, ynghyd â gofynion eraill yn gysylltiedig ag ystadau. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwblhau adolygiad ar wahân o'r ystadau, a chasgliad yr adolygiad hwnnw oedd fod y Bwrdd lechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r rheolaeth ar ystadau, ond byddai'n fuddiol iddo gyflwyno cynllun strategol i gyfarwyddo gweithgareddau.

⁷ Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig ar gyfer 2016, gofynnwyd am gofnodion tri chyfarfod diwethaf y Bwrdd Clinigol. Ni chafwyd unrhyw gofnodion oddi wrth y Bwrdd Clinigol Meddygaeth.

86 Yn ychwanegol at yr argymhellion ffurfiol a wnaethom yn 2015, nodwyd hefyd nifer o gyfleoedd ar gyfer gwella. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth ymateb i'r cyfleoedd gwella hyn, er bod y cynnydd yn parhau i amrywio. Disgrifir y cynnydd a wnaed yn erbyn holl gyfleoedd gwella 2015 yn [Arddangosyn 8](#).

Arddangosyn 8: cynnydd yn erbyn holl gyfleoedd gwella 2015

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn holl gyfleoedd gwella 2015.

cyfleoedd gwella 2015	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>Yn rhan o waith craffu'r Bwrdd a'r CTCI, mae angen canolbwyntio mwy ar effaith cynllun De Cymru, ac nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi cyfleu pa wasanaethau sy'n debygol o gael eu hadleoli o'r Bwrdd Iechyd ac o safleoedd y prif ysbytai er mwyn bodloni'r cynnydd yn y galw.</p>	<p>Ar waith ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Yn CTCI 2016-17 nas cymeradwywyd, cafwyd mwy o gyfeiriadau at gynllun De Cymru nag a gafwyd yn flaenorol. Er y cafwyd mân drafod ar lefel y Bwrdd ynghylch cynllun De Cymru a'i effaith ar wasanaethau lleol, mae cynlluniau gwasanaeth a ddatblygwyd hyd yma yn awgrymu mai ychydig o gynnydd a geir ar hyn o bryd yn y galw am wasanaethau'r Bwrdd Iechyd, a bod y cynnydd hwnnw felly'n rhywbeth y gellir ei fodloni o fewn adnoddau presennol. Fodd bynnag, erys pryderon ynghylch effaith bosibl ad-drefnu gwasanaethau trawma, nad oes cytundeb yn ei gylch eto. Mae angen i'r Bwrdd hefyd barhau i oruchwylio cynllun De Cymru.</p>
<p>Mae bylchau wedi parhau ar lefel uwchreoli o fewn y Byrddau Clinigol, ac yn eu cyfarwyddiaethau.</p>	<p>Ar waith ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Ar wahân i un Gyfarwyddiaeth, roedd holl swyddi gwag y Cyfarwyddwyr Clinigol wedi'u llenwi ar adeg ein hadolygiad. Roedd swyddi gwag nyrsys arweiniol y Bwrdd Clinigol hefyd wedi cael eu llenwi, ar wahân i swydd y Bwrdd Clinigol Deintyddol a hysbysebwyd yn ddiweddar, y mae cynlluniau a waith i'w llenwi.</p>
<p>Mae'r lefelau presenoldeb yn rhai o bwylgorau Ansawdd Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol, ac ymglymiad staff meddygol yn amrywio.</p>	<p>Ar waith ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Mae gweithredu'r dangosfwrdd ansawdd a diogelwch ar lefel Bwrdd Clinigol wedi helpu i ennyn diddordeb staff meddygol, ac mae'r penodiadau newydd i swyddi Cyfarwyddwr Clinigol hefyd wedi helpu yn hyn o beth. Mae presenoldeb mewn rhai pwylgorau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad hefyd yn broblem. Dyma thema a nodwyd yn yr adolygiadau ansawdd mewnol diweddar o'r trefniadau llywodraethu ansawdd o fewn y Byrddau Clinigol.</p>

cyfleoedd gwella 2015	Disgrifiad o'r cynnydd
Ni fu rhawdiau diogelwch cleifion yn gwbl effeithiol, ac fe gafwyd cyfradd canslo uchel ar gyfer y rhain. Mae cynllun ar waith i adnewyddu'r dull a fabwysiadwyd.	<p>Cwblhawyd</p> <p>Mae'r rhawdiau diogelwch cleifion bellach wedi'u hailsefydlu yn llawn ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn y dydd ac yn ystod y nos. Yn sgil y bylchau yn nifer yr aelodau annibynnol, mae rhai swyddogion gweithredol weithiau wedi cynnal rhawdiau ar eu pen eu hunain, ond ni fydd angen iddynt wneud hyn cyn gynted ag y bydd yr aelodau annibynnol newydd yn eu swyddi.</p>
Mae'r Bwrdd lechyd parhau i wella ysgwyddo lefel sylweddol o risg, ac mae'n ymdrechu i ymdrin â hyn. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau bregus, sefyllfa ariannol anffafriol, cyflwr gwael ei ystadau, heriau o ran y gweithlu ac anawsterau wrth gyrraedd nifer o dargedau perfformiad.	<p>Prin yw'r cynnydd, os o gwbl.</p> <p>Cafwyd rhai gwelliannau cadarnhaol o ran cadw at dargedau perfformiad, heriau'r gweithlu a'r ystadau, ond mae'r Bwrdd lechyd yn dal i ysgwyddo lefel sylweddol o risg, gyda'r meysydd hyn wedi'u dynodi'n rhai risg uchel neu eithafol heb gamau i'w lliniaru.</p>
Nid yw cofrestrau risg bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn, ac mae'r trefniadau i adrodd ar risgiau ar lefel cyfarwyddiaeth ac ar lefel leol yn parhau i amrywio.	<p>Ar waith ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Yn yr adolygiadau archwilio mewnol diweddar o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Clinigol, pennwyd sicrwydd rhesymol neu sylweddol ar gyfer yr holl drefniadau. Fodd bynnag, roedd ansawdd a chysondeb y cofrestrau risg yn parhau i fod yn broblem mewn ambell faes. Mae cynlluniau gweithredu bellach ar waith i ymdrin â hyn mewn ymateb i'r gwaith archwilio mewnol.</p>
Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i achosi risg uchel i'r Bwrdd lechyd a bu cynnydd yr agenda ansawdd data yn araf.	<p>Cwblhawyd</p> <p>Yn yr adolygiad asesu risg blynyddol a gynhaliwyd gennym ar lywodraethu gwybodaeth ac IMT, nodwyd bod y trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth wedi cael eu hatgyfnerthu, a bod yr is-grŵp ansawdd data, sydd bellach wedi ennill ei blwyf, wedi helpu yn hyn o beth.</p>
Mae'r lefel gyfredol o fuddsoddiad mewn TGCh yn achosi risg i'r Bwrdd lechyd.	<p>Ar waith ond heb ei gwblhau eto</p> <p>Yn ddiweddar, datblygodd y Bwrdd lechyd ei gynllun amlinellol strategol ar gyfer TGCh sy'n cydnabod yr angen i fuddsoddi swm sylweddol o gyllid. Yn ystod 2016, derbyniodd y Bwrdd lechyd £1.2 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i atgyfnerthu ei seilwaith TGCh, er bod diffyg o oddeutu £1.5 miliwn yn bodoli o hyd. Bydd y cynllun amlinellol strategol yn helpu i gefnogi cynnydd pellach yn y maes hwn.</p>

- 87 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion a chyfleoedd gwella ein hasesiad strwythuredig yn 2015, buom hefyd yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i'r argymhellion oedd yn codi o waith archwilio arall. Canfuom fod angen gwella'r trefniadau olrhain presennol. Caiff adroddiad olrhain ei lunio i'r Pwyllgor Archwilio sy'n rhoi crynodeb o gynnydd lefel uchel y cynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â'n darnau penodol o waith, a'r pwyllgorau sy'n gyfrifol am oruchwylio cyflawniad yr argymhellion. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad olrhain yn crynhoi nifer yr argymhellion yr ymdriniwyd â hwy, a nifer yr argymhellion sy'n weddill. Nid yw'n cynnwys argymhellion archwilio ariannol chwaith.
- 88 Mae'r adroddiad olrhain hefyd yn ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth oddi wrth y pwyllgorau perthnasol, ac ar drefniadau'r pwyllgorau hynny i fonitro cynlluniau gweithredu yn agos. Wrth adolygu trefniadau olrhain yn gysylltiedig â'r gwaith archwilio a gwblhawyd gennym dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nodwyd na cheir diweddariadau ar gynnydd bob tro, er bod y pwyllgor perthnasol yn ystyried y cynllun gweithredu cychwynnol ac ymateb y rheolwyr ar ôl cwblhau'r adroddiad. Yn adroddiad olrhain mis Ebrill 2016 i'r Pwyllgor Archwilio, nodwyd y byddai Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad (PCPh) mis Gorffennaf yn ystyried y diweddaraf am ein gwaith blaenorol ar nyrsys ardal, rheoli meddyginiaethau ac orthopedeg. Ni ddigwyddodd hyn, ac yn yr adroddiad olrhain diweddaraf, mae diweddariad ar y tri adolygiad bellach wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2017.
- 89 Roedd ein hadolygiad o gynnydd argymhellion asesiad strwythuredig 2015 yn gyson â statws yr argymhellion yn y diweddariad mwyaf diweddar gan reolwyr y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, mae rhai o'r terfynau amser ar gyfer cwblhau'r camau hyn bellach wedi mynd heibio, ac nid yw'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn diweddariad o ymateb y rheolwyr ers cyflwyno ein gwaith o 2015 ar ddechrau 2016.

Atodiad 1

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2016

Cynhwysir ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd ar ôl i'r templed gael ei gwblhau. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol a gyflwynir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd neu bwyllgor perthnasol o'r Bwrdd ystyried yr adroddiad.

Arddangosyn 9: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn dangos argymhellion 2016 ac ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A1	Atgyfnerthu'r trefniadau adrodd ariannol drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr adroddiad ariannol i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Cyllid yn gysylltiedig â'r canlynol: a) Dangosfwrdd sy'n rhoi crynodeb o berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol; a	Mwy o eglurder i aelodau Bwrdd ynghylch perfformiad ariannol wrth ystyried sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.	Ydy	Do	Nodwyd - Ar hyn o bryd, mae'r dangosfwrdd ar gyfer cyllid wedi'i gynnwys yn Adroddiad Perfformiad y Bwrdd a gyflwynir gerbron y Bwrdd. Bydd yn cael ei adolygu a'i gynnwys yn yr Adroddiad Cyllid fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i'r Pwyllgor Cyllid weld y dangosfwrdd	Ebrill 2017 (2017-2018)	Cyfarwyddwr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	b) materion yn gysylltiedig â chamau sy'n cael eu cymryd i reoli gorwariant yn erbyn y gyllideb a sicrhau arbedion angenrheidiol fesul maes clinigol, a manylion am hynny.	Mwy o eglurder i aelodau Bwrdd ynghylch y materion sy'n effeithio ar y sefyllfa ariannol a'r camau sy'n cael eu cymryd.	Ydy	Do	hefyd. Mae manylion y gorwariant wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Cyllid i'r Bwrdd, ond nid yw'r camau adfer wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Bydd crynodeb o gamau wedi'u cynnwys ar gyfer 2017-18, a chrynodeb o gyflawniad yn erbyn Cynlluniau Lleihau Costau y byrddau/adrannau clinigol. Ni fwriedir cyflwyno mesurau adfer manylach gerbron y Bwrdd, ond yn hytrach gerbron y Pwyllgor Cyllid. Mae'r adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid heb ei ddylunio, ond mae'n cael ei ystyried i'w gyflwyno yn 2017-18, a bydd yn cynnwys perfformiad ariannol byrddau/adrannau clinigol, perfformiad y Cynlluniau Lleihau Costau a chynlluniau adfer.	Ebrill 2017	Cyfarwyddwr Cyllid
A2	Sicrhau bod cynlluniau i leihau costau wedi'u cefnogi'n ddigonol cyn	Caiff cynlluniau lleihau costau eu datblygu o flaen y flwyddyn ariannol,	Ydy	Do	Mae prif ddeiliaid cyllideb wedi derbyn cyfarwyddyd i nodi cyfleoedd am Gynlluniau Lleihau Costau drwy ddefnyddio	Mawrth 2017	Cyfarwyddwr Cyllid (gyda chefnogaeth holl

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	dechrau'r flwyddyn ariannol.	sy'n galluogi'r Bwrdd lechyd i gyflwyno cynllun ariannol cadarn ar gyfer y flwyddyn o'i flaen.			gwybodaeth, meincnodau a thrawsnewid gwasanaethau. Yn ogystal â llenwi piblinell goch y Cynlluniau Lleihau Costau, gofynnwyd am ddogfen ychwanegol i roi sicrwydd ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael cyn dechrau blwyddyn ariannol 2017/18. Yn ogystal â hyn, bydd ymarfer 'Tro'r Gromlin' yn cynnig cyfleoedd ehangach i'r Bwrdd lechyd prifysgol, sydd y tu hwnt i darged blynyddol y Cynlluniau Lleihau Costau.		brif ddeiliaid cyllidebau)
A3	Wrth ddatblygu cynllun tair blynedd 2017-18, sicrhau: a) cysylltedd clir rhwng y cynllun tymor canolig a'i strategaeth tymor hwy, yn ogystal â'i ofynion a'i gynlluniau strategol eraill, fel	Mae'r cynllun tair blynedd yma yn rhoi esboniad cynhwysfawr o'r modd y bydd y Bwrdd lechyd yn cyflawni ei	Ydy	Do	Bydd y CTCl/cynllun blynyddol wedi'i nodi mewn modd sy'n alinio'r camau gweithredu 1/3 blynedd ag amcanion strategol Siapio ein Lles i'r Dyfodol. Bydd y CTCl/cynllun blynyddol hefyd yn cadarnhau'r camau	Mawrth 2017	Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a b) dealltwriaeth glir o'r budd a ddisgwylir yn sgil y camau a'r blaenoriaethau a nodir yn ei gynllun.	strategaeth hirdymor ochr yn ochr â'i ofynion strategol eraill. Mae'r canlyniadau a'r buddion a fwriedir yn sgil y cynllun wedi'u nodi a'u deall yn glir.	Ydy	Do	sy'n cael eu cymryd i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - ond yn gysylltiedig â'r Ddeddf gyntaf, mae cynllun gweithredu hefyd wedi'i gymeradwyo ac yn cael ei oruchwyllo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fydd y CTCl yn ailadrodd yr holl fanylion. Bydd y CTCl/cynllun blynyddol yn nodi'r canlyniadau disgwylidiedig a dull o fesur y camau a nodir ynddo.	Mawrth 2017	Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio
A4	Sefydlu'r Pwyllgor Cynllunio Strategol ar frys er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i graffu ar ddatblygiad cynllun tair blynedd 2017-18.	Craffu'n fanylach ar gynllun y Bwrdd Iechyd na'r hyn a ganiateir ar hyn o bryd ar agenda'r Bwrdd.	Ydy	Do	Bydd y bwrdd yn cadarnhau'r trefniadau newydd ar gyfer Pwyllgorau erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Yn amodol ar gymeradwyo'r trefniadau hynny, byddant yn cael eu gweithredu o fis Ebrill 2017.	Mai 2017	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A5	Atgyfnerthu'r adroddiadau ar gynnydd wrth gyflawni yn erbyn y cynllun, gan gynnwys agweddau a nodwyd yn ein hadolygiad cymharol o adroddiadau cynnydd, a sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn rheolaidd gan y pwyllgor Cynllunio Strategol yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-20.	Craffu'n rheolaidd ar gyflawniad yn erbyn y cynllun yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017-20.		I'w gadarnhau	Caiff y trefniadau adrodd yn erbyn y CTCl/y cynllun blynyddol eu hadolygu, a bydd y dull mwyaf effeithiol o sicrhau adroddiadau cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio Strategol (os yw'r Bwrdd yn cymeradwyo sefydlu'r Pwyllgor).	Mehefin 2017	Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio
A6	Cynnal gwerthusiad o gapasiti cynllunio er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti a gallu cynllunio digonol o fewn y sefydliad. Dylai'r gwerthusiad hefyd gynnwys ei gapasiti rheoli newid er mwyn lleihau hyd yr eithaf yr	Sicrwydd bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti cynllunio digonol i gefnogi datblygiad cynlluniau a'r newid cysylltiedig sydd ei angen er mwyn gweithredu'r cynlluniau.	Ydy	Do	Bydd gofynion capasiti cynllunio/y Swyddfa Rheoli Rhaglenni/newid gwasanaethau yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r trefniadau rheoli angenrheidiol i gefnogi'r rhaglen drawsnewid.	Mehefin 2017	Prif Weithredwr Dros Dro

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	angen i'r Bwrdd lechyd gomisiynu cefnogaeth allanol yn barhaus.						
A7	Adolygu'r modd y caiff amcanion eu diffinio yn y Fframwaith Sicrwydd Risg Corfforaethol, er mwyn hyrwyddo'r gallu i adnabod llwyddiant, a'r hyn sydd angen ei wneud i gyflawni'r amcanion hyn, gan sicrhau y caiff y rhain eu halinio ymhellach â'r rhai a nodir yn y cynllun deng mlynedd.	Fframwaith Sicrwydd a Risg Corfforaethol sy'n disgrifio llwyddiant, yr hyn sydd angen ei wneud a pha sicrwydd sydd ei angen er mwyn cyflawni amcanion strategol y Bwrdd lechyd.	Ydy	Do	Mae sesiwn dydd llawn Datblygu'r Bwrdd ar 27 Ebrill 2017 wedi'i neilltuo i adolygu'r Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol ac archwilio ffyrdd newydd i'r Bwrdd lechyd reoli risg. Adroddir canlyniad y diwrnod wrth y Pwyllgor Archwilio ar 23 Ebrill 2017 gydag argymhellion.	Mai 2017	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
A8	Sicrhau cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr lechyd Cymru (cyfeirnod WHC/2016/22) ar roi adroddiadau tryloyw i'r cyhoedd. Yn benodol, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod modd cyrraedd y rhain yn hawdd ar wefan y Bwrdd lechyd:	Bydd y Bwrdd lechyd yn cydymffurfio â Chylchlythyr lechyd Cymru.	Ydy	Do	Cynhelir adolygiad o wefan y Bwrdd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r materion a nodwyd ynghyd â chydymffurfiaeth â'n polisïau	Mehefin 2017	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> cynllun i ymgysylltu â dinasyddion; polisi cwynion/codi pryderon; a pholisi amseroedd ymweld hyblyg. 						
A9	Fel mater o frys, dylid sicrhau bod holl swyddi gwag aelodau annibynnol yn cael eu llenwi, a bod deiliaid yn eu swyddi i gefnogi gweithrediad pwyllgorau yn unol â rheolau cworwm.	Bydd sefydliad llawn o aelodau annibynnol yn craffu a herio, ac mae'r perygl na fydd presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor yn sicrhau cworwm wedi'i leihau hyd yr eithaf.	Ydy	Do	1 Aelod Bwrdd Cysylltiol ychwanegol bellach yn llenwi pob swydd wag gyfredol. Mae gwaith cynllunio ar y cyd â Llywodraeth Cymru eisoes wedi cychwyn er mwyn recriwtio i 3 swydd Annibynnol ar gyfer mis Hydref 2017	Cwblhawyd	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
A10	Fel mater o frys, sefydlu'r Pwyllgor 'Adnoddau a Chyflawni' newydd er mwyn sicrhau trefniadau cadarn i graffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd.	Gwaith craffu rheolaidd ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn fanylach na'r hyn a ganiateir ar hyn o bryd o fewn agenda'r Bwrdd.	Ydy	Do	Bydd y bwrdd yn cadarnhau'r trefniadau newydd ar gyfer Pwyllgorau erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Yn amodol ar gymeradwyo'r trefniadau hynny, byddant yn cael eu gweithredu o fis Ebrill 2017.	Mai 2017	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A11	Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am berfformiad yn cael ei darparu i'r Pwyllgor 'Adnoddau a Chyflawni' newydd, gan gynnwys rhannu adolygiadau perfformiad y bwrdd clinigol, i'w alluogi i ganolbwyntio ar feysydd perfformiad y mae angen craffu arnynt yn fwyaf manwl.	Canolbwyntir ar y meysydd sydd angen y mwyaf o sylw wrth graffu a herio.	Ydy	Do	Bydd hon yn eitem safonol ar raglen y Pwyllgor a bydd crynodeb/y diweddaraf am y dangosfwrdd yn cael ei gyflwyno bob chwarter	Mehefin 2017	Prif Swyddog Gweithredu
A12	Cynnal gwerthusiad pellach o'r capasiti llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti a gallu llywodraethu digonol o fewn y sefydliad i roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd. Dylid gofyn am farn aelodau annibynnol ynghylch	Cadarnhad bod gan y Bwrdd lechyd gapasiti digonol i wneud yn siŵr bod y sicrwydd angenrheidiol yn weithredol.	Ydy	Do	Mae trafodaethau wedi cychwyn â'r Prif Weithredwr Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i gytuno ar gynllun i ymdrin â'r argymhellion. Rhennir canlyniad y trafodaethau hyn â'r Grŵp Cydgysylltu Llywodraethu (Cadeirydd ac Aelodau Annibynnol) yn eu cyfarfod ym mis Mai 2017.	Mai 2017	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	pa sicrwydd sydd ei angen yn rhan o'r gwerthusiad hwn.						
A13	Atgyfnerthu'r trefniadau olrhain ar gyfer argymhellion archwilio allanol drwy ddarparu gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch i ba raddau y mae argymhellion archwilio ariannol a pherfformiad, y naill a'r llall, wedi'u cwblhau, a sicrhau bod pwyllgorau perthnasol y Bwrdd yn monitro pob cynllun gweithredu hyd nes y bo wedi'i gwblhau.	Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod argymhellion archwilio allanol yn cael eu gweithredu ac yn cael yr effaith angenrheidiol.		Do	<p>Papur wedi'i gyflwyno i gyfarfod y Rheolwyr Gweithredol ar 20 Mawrth 2017.</p> <p>Ym mhob cyfarfod, bydd is-bwyllgor Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn derbyn adroddiad am yr holl archwiliadau a chamau gweithredu sydd yn gysylltiedig â TG, yn ogystal â'r diweddaraf am unrhyw gamau sydd yn weddill.</p> <p>Ym mhob cyfarfod, bydd y pwyllgor Maeth ac Arlwygo yn derbyn adroddiad ar bob archwiliad – gan gynnwys archwiliadau SAC, ynghyd â'r diweddaraf am unrhyw gamau gweithredu. Adroddir hyn hefyd wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.</p> <p>Camau gweithredu a chynnydd yn sgil archwiliad anabledau dysgu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'u hadrodd wrth y</p>	<p>Mawrth 2017</p> <p>Rhagfyr 2016</p> <p>Chwefror 2017</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyllid</p> <p>Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd</p> <p>Cyfarwyddwr Therapïau a</p>

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
					<p>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.</p> <p>Camau gweithredu a chynnydd yn sgil archwiliad gofal llygaid AMD Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'u hadrodd wrth grŵp gofal iechyd llygaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</p>		Gwyddorau Iechyd

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun : 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales